



Is-orsaf Llandyfaelog Datganiad Cynllunio



Ar ran **National Grid**
nationalgrid



Datganiad Cynllunio

Is-orsaf Llandyfaelog

Hydref 2025

Paratowyd ar gyfer:
National Grid Electricity Transmission

Paratowyd gan:
JOR

Rhif y Prosiect:
331201429

Swyddfa Gofrestredig: Buckingham Court Kingsmead
Business Park, London Road, High Wycombe,
Buckinghamshire, HP11 1JU

Cyfeiriad Swyddfa: Lakeside House, Blackbrook
Business Park, Blackbrook Park Avenue, TA1 2PX
Ffôn: 01823 218940 E: Taunton.uk@stantec.com

Amserlen Diwygio

Diwygiad	Disgrifiad	Awdur	Dyddiad	Gwirio Ansawdd	Dyddiad	Adolygiad Annibynnol	Dyddiad
001	Datganiad Cynllunio Drafft	JOR	Medi 2025	JC	Medi 2025		
002	Datganiad Cynllunio Drafft	JC	Medi 2025	SH	Medi 2025		
003	Datganiad Cynllunio	JOR	Hydref 2025	SH	Hydref 2025		

Ymwrthodiad

Barn broffesiynol Stantec, ar adeg yr Adroddiad, yw'r casgliadau yn yr Adroddiad o'r enw 'Datganiad Cynllunio Is-Orsaf Llandyfaelog', ac mewn perthynas â'r cwmpas a ddisgrifir yn yr Adroddiad. Mae'r safbwyntiau yn y ddogfen yn seiliedig ar amodau a gwybodaeth a oedd yn bodoli adeg cwmpasu'r gwaith ac nid ydynt yn ystyried unrhyw newidiadau dilynol. Mae'r Adroddiad yn ymwneud â dim ond y prosiect penodol y defnyddiwyd Stantec ar ei gyfer a'r pwrpas datganedig y paratowyd yr Adroddiad ar ei gyfer. Ni ddylid defnyddio'r Adroddiad na dibynnu arno ar gyfer unrhyw amrywiad neu estyniad i'r prosiect, nac ar gyfer unrhyw brosiect neu ddiben arall, ac mae unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth heb awdurdod ar risg y derbynnydd ei hun.

Mae Stantec wedi tybio bod yr holl wybodaeth a gafwyd gan National Grid Electricity Transmission (y 'Cleient') a thrydydd partiön wrth baratoi'r Adroddiad yn gywir. Er bod Stantec wedi arfer lefel arferol o farn neu ddiwydrwydd dyladwy wrth ddefnyddio gwybodaeth o'r fath, nid yw Stantec yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb dros ganlyniadau unrhyw wall neu hepgoriad a geir ynddo.

Mae'r Adroddiad hwn wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio gan y Cleient yn unig yn unol â chontract Stantec gyda'r Cleient. Er y gall y Cleient ddarparu'r Adroddiad i awdurdodau perthnasol sydd ag awdurdodaeth ac i drydydd partiön eraill mewn cysylltiad â'r prosiect, mae Stantec yn gwadu unrhyw ddyletswydd gyfreithiol sy'n seiliedig ar warant, dibyniaeth neu unrhyw ddamcaniaeth arall i unrhyw drydydd parti, ac ni fydd yn atebol i drydydd parti o'r fath am unrhyw iawndal neu golledion o unrhyw fath a allai ddigwydd.

Paratowyd gan:



Llofnod

J O'Rourke

Enw wedi'i brintio

Adolygwyd gan:



Llofnod

J Culshaw

Enw wedi'i brintio

Cymeradwywyd gan:



Llofnod

Sam Harper

Cynnwys

1 Cyflwyniad.....	1
1.1 Cyflwyniad	1
1.2 Pwrpas y Datganiad Hwn	1
1.3 Cefndir	1
1.4 Caniatáu	2
1.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	3
2 Lleoliad y Safle, Disgrifiad a'r Ardal Gyfagos.....	4
2.1 Lleoliad y Safle	4
2.2 Disgrifiad o'r Safle a Mynediad.....	4
2.3 Yr Ardal Gyfagos	4
2.4 Cyfyngiadau Technegol y Safle.....	5
3 Sgrinio'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	7
3.1 Cais am Farn Sgrinio ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.....	7
4 Ymgysylltu â'r Gymuned:	8
4.1 Cyflwyniad	8
4.2 Ymgysylltu â'r Cyngor cyn Ymgeisio	8
4.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Eraill cyn Ymgeisio.....	8
4.4 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Statudol.....	8
5 Y Cynnig Datblygu.....	9
5.1 Y Cynnig Datblygu.....	9
5.2 Rhaglen Adeiladu a Chomisiynu	11
6 Hanes Cynllunio Perthnasol a Chyd-destun Polisi Cynllunio	13
6.1 Cyflwyniad	13
6.2 Hanes Cynllunio Perthnasol	13
6.3 Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol	13
6.4 Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol.....	14
6.5 Cyngor Cyn Ymgeisio.....	15
6.6 Y Cynllun Datblygu	16
6.7 Ystyriaethau Perthnasol	17
7 Asesiad Cynllunio	23
7.1 Cyflwyniad	23
7.2 Egwyddor Datblygu	23
7.3 Tirwedd a Gweledol.....	27
7.4 Ecoleg.....	29
7.5 Seilwaith Gwyrdd.....	32
7.6 Treftadaeth Ddiwylliannol	32
7.7 Priffyrdd a Pharcio.....	34
Polisi Strategol SP9: Trafnidiaeth.....	34
7.8 Risg Llifogydd a Draenio Cynaliadwy.....	36
7.9 Llygredd	36

7.10 Materion Perthnasol Eraill	39
8 Crynodeb a Chasgliadau	41
8.1 Crynodeb	41
8.2 Casgliadau.....	41

Ffigurau

Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle.....	4
Ffigur 2: Rhan o CLDP 2006-2021 (cyrchwyd Medi 2025) ac allwedd gyfatebol.....	5

Tablau

Tabl 1: Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol sydd wedi cael eu cymeradwyo yn yr ardal leol....	13
Tabl 2: NSIPs sydd wedi cael eu cymeradwyo yn yr ardal leol.....	15

1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad

- 1.1.1 Paratowyd y Datganiad Cynllunio (PS) hwn gan Stantec UK Ltd (Stantec) ar ran yr ymgeisydd National Grid Electricity Transmission ('NGET') (y Cleient) i gefnogi'r gwaith o ddarparu is-orsaf 400kV newydd (gan gynnwys plattform yr is-orsaf, y ffordd fynediad a'r seilwaith cysylltiedig) (Prosiect Llandyfaelog), ger Llandyfaelog, Caerfyrddin, De Cymru.
- 1.1.2 Mae'r Safle wedi'i leoli o fewn ffin weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) (y Cyngor).
- 1.1.3 Mae Prosiect Llandyfaelog yn cynnwys y prif elfennau canlynol:
- Plattform ac Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio ag Aer (AIS), sy'n 260 metr wrth 640 metr o faint. Mae'r plattform yn cynnwys llawr caled gyda draeniau a daearu ar gyfer offer trydanol. Bydd yr wyneb wedi ei orchuddio â cherrig mân llwyd. Bydd is-orsaf AIS 400 kV y National Grid wedi'i lleoli ar y plattform gwastad mewn compownd wedi'i ffensio a fydd yn 155 metr wrth 602 metr o faint.
 - Bydd gweddill y gofod ar y plattform yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dwy is-orsaf 132kV lai, a fydd yn cael eu hadeiladu a'u gweithredu gan NGED a Green Gen Cymru yn y drefn honno. Bydd NGED a Green GEN Cymru yn gwneud cais am ganiatâd ar wahân i adeiladu eu compowndiau arfaethedig ar gyfer yr is-orsaf, yn ogystal â'r cysylltiadau â'r is-orsaf 400 kV arfaethedig.
 - Mynediad i'r A484, gyda ffordd fynediad weithredol i gysylltu'r plattform â'r A484.
 - Gwaith addasu i'r Llinell Uwchben 400kV bresennol i gysylltu'r is-orsaf â'r llinellau uwchben presennol, gan gynnwys gosod dau dŵr newydd ac amnewid un tŵr tua 18m a 62.
 - Systemau draenio cysylltiedig a thirlunio caled a meddal.

1.2 Pwrpas y Datganiad Hwn

- 1.2.1 Pwrpas y PS hwn yw helpu CSC i asesu'r Datblygiad Arfaethedig yn erbyn y cynllun datblygu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill yn unol ag Adran 38(6) y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).

1.3 Cefndir

Cyfrifoldebau Statudol NGET

- 1.3.1 Yr Ymgeisydd yw'r unig gwmni sydd â thrwydded i drawsyrro trydan yng Nghymru a Lloegr. O dan Adran 9 y Ddeddf Trydan, mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd, yn rhinwedd y swyddogaeth hon, ddatblygu a chynnal system effeithlon, gydlynol ac economaidd o drawsyrro trydan i hwyluso cystadleuaeth o ran cyflenwi a chynhyrchu trydan. Mae'r system yn gweithredu'n bennaf ar 400kV a 275kV, gan gysylltu'r generaduron trydan ag is-orsafedd lle mae'r folteddau uchel yn cael eu trawsnewid yn folteddau is, gan alluogi Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu ('DNO') sy'n gweithredu ar uchafswm o 132kV i ddosbarthu'r pŵer i gartrefi a busnesau.
- 1.3.2 Mae trosglwyddo trydan ym Mhrydain Fawr yn gofyn am ganiatâd drwy drwydded a roddir o dan Adran 6(1)(b) Deddf Trydan 1989 ("y Ddeddf Trydan"). Mae'r Ymgeisydd wedi cael trwydded trawsyrro ac mae'n rhwym wrth rwymedigaethau cyfreithiol, sydd wedi'u nodi'n bennaf yn y Ddeddf Trydan ac yn y drwydded drawsyrro.



1.3.3 Mae gan NGET rwymedigaeth gyfreithiol i gysylltu cwsmeriaid â'r rhwydwaith pan ofynnir am gysylltiad, a phan nad oes gan is-orsafoedd presennol y capasiti ar gyfer maint y cysylltiad sydd ei angen, mae'n rhaid i NGET adeiladu un newydd i ddiwallu'r angen. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer seilwaith rhwydwaith newydd, mae gan NGET ddyletswydd o dan Ddeddf Trydan 1989 i wneud hynny mewn ffordd effeithlon, gydlynol ac economaidd. Mae Adran 38 Deddf Trydan 1989 hefyd yn mynnu bod National Grid yn cydymffurfio â darpariaethau Atodlen 9 sy'n mynnu bod deiliaid trwyddedau, wrth lunio cynigion i drawsyrro trydan yn:

- Atodlen 9(1)(a) *"rhoi sylw i ba mor ddymunol yw gwarchod harddwch naturiol, gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffigol o ddiddordeb arbennig a diogelu safleoedd, adeiladau a gwrthrychau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu archeolegol"*; ac
- Atodlen 9(1)(b) *"i wneud yr hyn a all yn rhesymol i liniaru unrhyw effaith a gâi'r cynigion ar harddwch naturiol cefn gwlad neu ar unrhyw gyfryw blanhigion, anifeiliaid, nodweddion, safleoedd, adeiladau neu wrthrychau."*

1.3.4 Mae gan NGET hefyd ddyletswydd statudol o dan Adran 9 (2) Deddf Trydan 1989:

- *"(....) i ddatblygu a chynnal system effeithlon, gydlynol ac economaidd ar gyfer trosglwyddo trydan; ac*
- *(...) i hwyluso cystadleuaeth o ran cyflenwi a chynhyrchu trydan."*

Is-orsaf Llandyfaelog

1.3.5 Cynigir bod is-orsaf Llandyfaelog yn darparu cysylltiadau ar gyfer dau gwsmer; Green Gen Cymru (GGC) sy'n gwsmer sy'n Weithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO), sy'n gofyn am 4 Trawsnewidydd Uwchgrid 400/132kV newydd i gysylltu 1540MW o ynni gwynt ar y tir, a National Grid Electricity Distribution (NGED), sy'n gwsmer sy'n Weithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO), sy'n gofyn am dri SGT 400/132kV newydd ar gyfer cysylltiad 480MVA. Bydd hyn yn gwella'r gwaith o reoli pŵer rhwng Penfro a Gogledd Abertawe, yn lliniaru cyfyngiadau, ac yn lleihau'r cwtogi yn system Rheoli Rhwydwaith Gweithredol (ANM) Gogledd Abertawe.

1.3.6 Ar ben hynny, ar sail ei astudiaeth Tu Hwnt i 2030¹ ar gyfer y Môr Celtaidd, mae NESO (Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol) wedi argymhell Llandyfaelog fel pwynt cysylltu ar gyfer 1.5GW o ynni gwynt ar y môr a oedd wedi cael ei gadw ar y Safle yn flaenorol.

1.4 Caniatáu

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

1.4.1 Mae'r cais cynllunio hwn wedi cael ei gyflwyno o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i CSC ar gyfer datblygu'r is-orsaf a'r platform arfaethedig. Mae'r gwaith arfaethedig yn 'ddatblygiad mawr', fel y'i diffinnir yn erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (Cyf. 1-1), gan ei fod yn ddatblygiad a gyflawnir ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar (ha) neu fwy.

Llinellau Uwchben

1.4.2 Mae Adran 37 Deddf Trydan 1989 yn sefydlu'r broses ganiatáu statudol ar gyfer gosod a chadw llinellau uwchben. Mae'n mynnu bod rhaid cael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net (SoS) i osod llinell drydan uwchben y ddadear oni bai fod y llinell drydan naill ai:

¹Tu hwnt i 2030: Môr Celtaidd, (13 Awst 2024) a gyhoeddwyd gan National Grid Electricity System Operator Limited ('NGESO').

- a) â foltedd nominal o lai na 20kV ac yn cael ei defnyddio i gyflenwi un cwsmer; neu
 - b) mae mewn mangre sydd naill ai'n cael ei meddiannu neu ei rheoli gan y person sy'n gyfrifol am y gwaith gosod. Byddai'r offer sydd ei angen i gysylltu'r is-orsafoedd arfaethedig â'r rhwydwaith trawsyrru yn uwch na 20kV ac ni fyddai wedi'i leoli ar dir sy'n cael ei feddiannu neu ei reoli gan y National Grid ar hyn o bryd.
- 1.4.3 Felly, mae'r elfennau hyn o'r datblygiad yn dod o dan Adran 37 y Ddeddf Trydan a bydd yr Ymgeisydd yn gofyn am ganiatâd (gan gynnwys caniatâd cynllunio tybiedig) gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y gwaith llinellau uwchben.
- 1.4.4 Nid ydym yn gofyn am ganiatâd cynllunio gan CSC ar gyfer y gwaith llinellau uwchben sydd ei angen i gysylltu'r is-orsaf arfaethedig â'r llinell uwchben 400kV bresennol gan fod llwybr caniatáu gwahanol yn berthnasol ar gyfer gwaith o'r fath.

1.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd


- 1.5.1 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn rhan orfodol o'r broses ganiatáu ar gyfer unrhyw gynllun neu brosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle dynodedig Ewropeaidd. Mae Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysgodol (sHRA) (Hydref 2025) wedi cael ei baratoi gan Stantec, sy'n rhan o'r cais cynllunio hwn.

2 Lleoliad y Safle, Disgrifiad a'r Ardal Gyfagos

2.1 Lleoliad y Safle

2.1.1 Mae'r Safle oddeutu 6km i'r de o Gaerfyrddin, De Cymru. Mae'r Safle wedi'i leoli mewn lleoliad amaethyddol yn bennaf, i'r gogledd o bentref Llandyfaelog a 700m i'r gogledd ddwyrain o Upland Arms. Mae ardal y gwaith arfaethedig wedi'i chanoli ar E:241868 N:213542.

2.1.2 Dangosir lleoliad y Safle yn **Ffigur 1** wedi'i amlinellu mewn coch.



Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle

2.2 Disgrifiad o'r Safle a Mynediad

2.2.1 Mae'r Safle'n cynnwys arwynebedd o tua 52 hectar (ha) ac mae'n cynnwys nifer o gaeau amaethyddol, sy'n cael eu defnyddio fel tir pori a thir ffermio â'r. Mae'r Safle ar lwyfandir uwch lle mae arwynebedd y tirffurf yn gymharol wastad.

2.2.2 Mae'r Safle wedi'i ffinio gan amrywiaeth o dirweddau naturiol gan gynnwys coed a gwrychoedd mawr.

2.2.3 Mae'r mynediad presennol i'r Safle o ffordd wledig gul y C2074 sydd tua 630m o hyd ac sy'n ymestyn oddi ar yr A484. Mae nifer o fynedfeydd presennol i'r caeau sy'n rhan o'r Safle o'r ffordd hon.

2.2.4 Ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, bydd ffordd fynediad newydd i'r safle yn cael ei hadeiladu, a fydd yn tua 600m o hyd. Bydd cyffordd newydd â'r A484 yn cael ei chreu tua 50m i'r de o'r C2074 bresennol.

2.2.5 Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW 29/14/2) yn croesi rhan ddeheuol y Safle, gan redeg o'r dwyrain i'r gorllewin ac yn torri ar draws y Safle'n uniongyrchol o dan y llinellau uwchben presennol.


2.3 Yr Ardal Gyfagos

2.3.1 Mae'r Safle wedi'i amgylchynu'n gyffredinol gan dir amaethyddol. Mae'r C2074 yn ffordd asffalt un trac yn union i'r gogledd o'r Safle, sy'n arwain i'r gorllewin a'r gogledd. I'r dwyrain a'r de, mae'r Safle'n ffinio â mwy o dir amaethyddol a glaswelltir ar gyfer pori.

- 2.3.2 Mae patrwm yr anheddiad yn cynnwys ffermydd gwasgaredig, ac mae'r un agosaf tua 170m i'r gogledd ddwyrain o'r Safle. Mae'r anheddiad preswyl agosaf tua 700m i'r gogledd ddwyrain o'r Safle a phentref Llandyfaelog tua 900m i'r de o'r Safle.
- 2.3.3 Mae dwy linell bŵer uwchben foltedd uchel bresennol yn rhedeg yn gyfochrog â ffin y Safle
- 2.3.4 Mae nifer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) o amgylch y Safle, gan gynnwys:
- Mae Llwybr Arfordir Cymru (a Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol) tua 1.4km ymhellach i'r gorllewin, gan ddilyn aber Afon Tywi
 - Hawl Tramwy Cyhoeddus 29/10/1 - i'r gogledd ddwyrain o'r Safle
 - Hawl Tramwy Cyhoeddus 29/13/1 - i'r dwyrain o'r Safle
 - Hawl Tramwy Cyhoeddus 29/15/1 - i'r dwyrain o'r Safle
 - Hawl Tramwy Cyhoeddus 29/14/1 a 2 - i'r de a'r dwyrain o'r Safle ac yn croestorri'r Safle
 - Hawl Tramwy Cyhoeddus 29/16/1 - i'r de o'r Safle
 - Hawl Tramwy Cyhoeddus 29/18/1 - i'r de o'r Safle

2.4 Cyfyngiadau Technegol y Safle

- 2.4.1 Nid yw'r Safle'n ddarostyngedig i unrhyw ddynodiadau ecolegol, hanesyddol na thirwedd statudol ac nid yw'n dod o dan unrhyw ddynodiadau cynllun lleol yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (CLDP) 2006-2021 a fabwysiadwyd fel y dangosir yn ffigur 2. Sylwch, mae ffin y Safle yn cael ei dangos fel llinell goch ar y ddelwedd isod.



Ffigur 2: Rhan o CLDP 2006-2021 (cyrchwyd Medi 2025) ac allwedd gyfatebol.

- 2.4.2 Nid yw'r Safle mewn tirwedd ddynodedig. Mae Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi tua 1.8km i'r gorllewin. Ar ben hynny, mae'r Safle wedi'i leoli yn Ardal Cymeriad Tirwedd Genedlaethol (NLCA) 33: Cwm Gwendraeth, a ddisgrifir fel ardal o fryniau tonnog, cribau a mân gymoedd, rhwng rhannau arfordirol a chwm Tywi, cymoedd De Cymru ac ardal y Mynydd Du ym Mannau Brycheiniog.
- 2.4.3 Mae dwy ardal sydd â dynodiad Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth natur o fewn 5km i'r Safle. Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Caerfyrddin ac Aberoedd, sydd tua 1.5 km i'r gogledd



orllewin o'r Safle ac Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi sydd tua 4.6km i'r gogledd o'r Safle. Mae yna un ardal genedlaethol sydd wedi'i dynodi'n statudol ar gyfer gwarchod natur, sef Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Afon Tywi, sydd 1.5km i'r gogledd orllewin o'r Safle.

2.4.4 Mae wyth ased hanesyddol dynodedig mewn ardal astudiaeth 3km o'r Safle, gan gynnwys y chwe adeilad rhestredig canlynol (gan gynnwys dwy bont), ac mae pob un ohonynt yn Rhestredig Gradd II:

- Glanrhydwr (tŷ rwbel Sioraidd) tua 1.3km i'r dwyrain o'r Safle (26769);
- Pont Anwyn (pont rwbel) sydd tua 2km i'r dwyrain o'r Safle (82287)
- Eglwys Sant Maelog tua 1.3km i'r de o'r Safle (26768);
- Pont Rhydyronnen (pont rwbel), tua 1.8km i'r de o'r Safle (82400)
- Upland (Sioraidd, tŷ tri llawr) a'r Hen Stablau yn Upland, tua 1.4km i'r gorllewin o'r Safle (21456 a 21457)

2.4.5 Mae dwy heneb restredig yn yr ardal astudiaeth 3Km, sy'n cynnwys:

- Castell y Domen, Gwempa, olion mwnt a ffos o'r oesoedd canol, tua 1.7km i'r de-ddwyrain o'r Safle (CM240); a
- Maen Hir Pen Celli, olion maen hir o'r Oes Efydd mae'n debyg, y tybir fod iddi swyddogaeth angladdol a / neu ddefodol, tua 1.7km i'r dwyrain o'r Safle (CM122)

2.4.6 Y Parc a Gardd Gofrestredig agosaf yw'r Llechdwnni Gradd II, sydd ychydig dros 3km i'r de o'r Safle (PGW(Dy)21(CAM)) sy'n gysylltiedig â'r Hen Dŷ rhestredig Gradd II yn Llechdwnni (14553). Mae'r ardaloedd cadwraeth agosaf at y Safle yn cynnwys Llansteffan, tua 7km i'r gorllewin, ac Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin, tua 6km i'r gogledd.

3 Sgrinio'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

3.1 Cais am Farn Sgrinio ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

- 3.1.1 Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 fel y'u diwygiwyd ("Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)"), yn gwneud darpariaeth i ymgeiswyr ofyn am farn sgrinio gan yr ACLI ynghylch a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Cynghorir ymgeiswyr i gael barn sgrinio yn gynnar, cyn iddynt ymgymryd ag unrhyw gyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio.

Sgrinio AEA: SCO/02163 (Mai 2024)

- 3.1.2 Gofynnwyd am Farn Sgrinio AEA (Cyf. ACLI SCO/02163) ar gyfer codi is-orsaf 400kV newydd ar y Safle ym mis Mai 2024. Mabwysiadodd CSC y farn nad oedd y Datblygiad Arfaethedig yn ddatblygiad AEA, ac nad oes angen Datganiad Amgylcheddol (DA) i gyd-fynd â'r cais.

Sgrinio AEA: SCO/02929 (Mai 2025)

- 3.1.3 Wrth i'r dyluniad esblygu, roedd dyluniad un platfform yn cael ei ffafrio am resymau peiranyddol ac i alluogi NGET i ddatblygu strategaeth ddraenio gyfannol ar gyfer y Safle. O ganlyniad, cynyddodd ardal y Safle hefyd. I ddilyn y broses briodol, gofynnwyd am farn sgrinio ffurfiol dilynol.
- 3.1.4 Cyflwynwyd y Cais am Farn Sgrinio AEA i'r Cyngor ar 20 Mai 2025 ac wedyn derbyniwyd Ymateb i Gais Sgrinio AEA (cyfeirnod CSC: SCO/02929) ar 2 Mehefin 2025. Penderfyniad y Cais am Farn Sgrinio AEA oedd nad oedd angen Datganiad Cwmpasu ac Amgylcheddol (ES) EIA.
- 3.1.5 Mabwysiadodd y Cyngor y farn ganlynol:

"Felly, mae'r Awdurdod o'r farn bod y cynnig, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd, yn annhebygol o gael effaith andwyol sylweddol ar yr amgylchedd. O'r herwydd, nid yw effaith debygol y cynigion yn debygol o fod yn sylweddol ac nid yw'n gyfystyr â datblygiad AEA. Dyma 'farn sgrinio' yr Awdurdod Cynllunio Lleol".

4 Ymgysylltu â'r Gymuned

4.1 Cyflwyniad

- 4.1.1 Mae NGET yn credu y gall ymgysylltu cynnar ac ystyrlon â'r gymuned wrth gynllunio wella ansawdd a pherthnasedd datblygiadau newydd; rhoi llais i bobl a meithrin eu hyder i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol; a meithrin dealltwriaeth rhwng datblygwyr, awdurdodau cynllunio a chymunedau.

4.2 Ymgysylltu â'r Cyngor cyn Ymgeisio

- 4.2.1 Mae'r Ymgeisydd wedi ymgysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin cyn ymgeisio ers camau cynnar datblygu'r prosiect yn 2024. Roedd yr ymgysylltu'n cynnwys ymholiad cyn cynllunio ffurfiol, gohebiaeth e-bost a chyfarfodydd ar faterion fel cwrmpas dogfennau'r cais, materion priffyrdd a draenio.

4.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Eraill cyn Ymgeisio

- 4.3.1 Drwy gydol datblygiad y prosiect, mae'r Ymgeisydd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyfarfodydd ar-lein, llythyrau a negeseuon e-bost. Roedd y sefydliadau a'r unigolion yr ymgynghorwyd â nhw yn cynnwys Cyngor Cymuned Llandyfaelog, tîrfeddianwyr ac aelodau o'r cyhoedd a Heneb.

4.4 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Statudol

- 4.4.1 Yn unol ag Adran 61 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) (Cyf L) a Rhan 1A Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygiad) 2016 (Cyf. 1-29), mae'n ofynnol i bob datblygiad mawr fod yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio ffurfiol cyn cyflwyno cais cynllunio. O ganlyniad, ac yn unol â'r rheoliadau, mae ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r Prosiect Arfaethedig.
- 4.4.2 Ar ôl ymgynghori, bydd rhagor o fanylion am y broses ymgynghori cyn ymgeisio statudol yn cael eu cyflwyno yn yr Adroddiad ar Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio.

5 Y Cynnig Datblygu

5.1 Y Cynnig Datblygu

5.1.1 Mae is-orsafoedd yn rhan annatod o system drawsyrro trydan y DU. Maent yn ddull o reoli llifoedd pŵer a folteddau o amgylch y systemau drawsyrro a dosbarthu ac fe'u defnyddir i gysylltu ffynonellau cynhyrchu trydan â'r systemau hynny.

5.1.2 Yn gyffredinol, bydd is-orsafoedd yn cynnwys elfennau fel newidyddion ac offer switsys. Bydd newidydd mewn is-orsaf yn newid lefel foltedd o un gwerth i werth arall. Defnyddir offer switsys i ddarparu diogelwch gweithredol a hyblygrwydd i'r rhwydwaith er mwyn galluogi llifoedd pŵer effeithlon a sicrhau bod y rhwydwaith yn gweithredu'n ddiogel ac yn ddibynadwy.

Y Platform Arfaethedig ac Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio ag Aer

5.1.3 Mae'r platform unigol, sy'n 260m wrth 640m o faint, yn cynnwys llawr caled gyda draeniau a daearu ar gyfer offer trydanol. Bydd yr wyneb wedi ei orchuddio â cherrig mân llwyd. Bydd is-orsaf AIS 400kV NGET wedi'i lleoli ar ochr orllewinol y platform mewn compownd wedi'i ffensio a fydd yn 155m wrth 602m o faint. Bydd ochr ddwyreiniol y platform yn cael ei defnyddio ar gyfer is-orsafoedd y cwsmeriaid (a bydd y rhain yn cael caniatâd ar wahân).

5.1.4 Bydd cyfarpar yr is-orsaf yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau fertigol sy'n cynnal bwsbarau uwchben gydag offer ategol. Uchafswm uchder yr offer fydd tua 15m. Bydd hyd at wyth Newidydd Uwchgrid yn yr is-orsaf. Bydd pob Newidydd yn cael ei leoli ar sylfaen goncrid wedi'i hatgyfnerthu yn y compownd ac yn cael ei amgylchynu gan amgaeadau sŵn. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer dau gyfadferydd adweithiol yn y dyfodol.

5.1.5 Bydd adeilad rheoli, adeilad amwynderau ac unedau storio yn cael eu lleoli yn y compownd, a fydd yn 23.3 metr wrth 26.3 metr, 14.7 metr wrth 17.6 metr, 6 metr a 2.5 metr yn y drefn honno. Bydd yr adeiladau rheoli ac amwynderau yn adeiladwaith blociau a brics traddodiadol. Mae'r unedau storio yn gynwysyddion cludo wedi'u haddasu. Bydd yr adeilad rheoli yn cynnwys cyfrifiaduron a rheolyddion i weithredu'r is-orsaf. Bydd yr adeilad amwynderau'n cynnwys cyfleusterau swyddfa a lles.

5.1.6 Yn agos at y brif fynedfa ond y tu allan i'r is-orsaf, bydd angen is-orsaf DNO fach ar gyfer cyflenwad pŵer foltedd isel i'r Safle. Yn y Safle wrth ymyl yr adeiladau bydd generadur disel y bydd angen ei ddefnyddio fel cyflenwad wrth gefn os bydd y cyflenwad pŵer foltedd isel yn methu.

5.1.7 Bydd llefydd parcio yn cael eu darparu wrth ymyl yr adeiladau rheoli ac amwynderau, gan ddarparu 23 lle parcio (gan gynnwys cyfleusterau gwefru cerbydau trydan).

5.1.8 Bydd ffens ddiogelwch wedi'i thrydaneiddio (3.4m o uchder) yn amgylchynu'r compownd. Bydd goleuadau diogelwch isgoch goddefol a chamerau diogelwch teledu cylch cyfyng yn amgylchynu'r offer ac yn creu compownd diogel. Bydd yr offer yn cael ei oleuo at ddibenion cynnal a chadw, a bydd unrhyw olau yn cael ei baratoi yn unol â'r Safonau Dylunio ar gyfer Goleuadau Allanol presennol.

5.1.9 Mae'r cynllun ffyrdd mewnol a'r ardal i gerddwyr ar gyfer compownd yr is-orsaf wedi cael ei ddylunio i ganiatáu i gerbydau a cherddwyr symud yn ddiogel ac mae wedi ystyried deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol ac arferion da'r diwydiant. Mae ffordd fynediad y Safle wedi'i chynllunio i ganiatáu danfon yr SGTs, mynediad gweithredol a chynnal a chadw o amgylch yr is-orsaf.

Mynediad

- 5.1.10 Bydd mynediad i'r Safle o'r A484 drwy gyffordd ceg cloch. Bydd y fynedfa'n cael ei defnyddio ar gyfer traffig adeiladu a mynediad gweithredol. Bydd ffordd fynediad fewnol fetel tua 6 metr o led yn rhedeg o'r gyffordd ceg cloch i'r platform am tua 600 metr.
- 5.1.11 Bydd y gyffordd ceg cloch a'r ffordd wedi'u hadeiladu o asfalt. Bydd llinell ffens, 1.1m o uchder, yn cael ei gosod ochr yn ochr â'r ffordd fynediad.
- 5.1.12 Yn ystod y cam adeiladu, bydd giât ac uned ddiogelwch yn cael eu lleoli wrth fynedfa'r Safle i reoli mynediad i'r Safle.
- 5.1.13 Mae'r fynedfa arfaethedig i'r Safle yn hollti trac mynediad graean presennol sy'n gweithredu fel ail fynediad i annedd i'r de o'r safle. Bydd mynediad i'r trac yn cael ei gynnal o fynedfa newydd o'r gyffordd ceg cloch. Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd mynediad i'r trac yn amodol ar reolaeth rhwng y contractwr a'r preswylydd.

Gwaith Llinellau Uwchben

- 5.1.14 Bydd y gwaith llinellau uwchben yn cynnwys adeiladu dau dŵr newydd ac amnewid un tŵr presennol, adeiladu a chael gwared wedyn ar wyriad dros dro sy'n angenrheidiol i adeiladu'r tyrau newydd ac adeiladu trefniadau mynediad llinellau i faeau is-orsafoedd newydd, gan derfynu'r llinellau uwchben ar strwythurau tebyg i nenbontydd.
- 5.1.15 Bydd y tyrau newydd yn cael eu hadeiladu ar hyd aliniad tebyg i'r tyrau presennol. Bydd y tŵr newydd cyntaf yn troi dwy gylched llinell uwchben at nenbontydd yn yr is-orsaf. Bydd yr ail dŵr newydd yn troi un gylched llinell uwchben at nenbont yn yr is-orsaf, gyda'r trydydd tŵr yn disodli tŵr presennol ac yn troi'r gylched llinell uwchben derfynol at nenbont yn yr is-orsaf.
- 5.1.16 **Draenio Dŵr Budr a Dŵr Wyneb**
- 5.1.17 Bydd systemau draenio dŵr wyneb a dŵr budr parhaol yn cael eu gosod ar gyfer y datblygiad. Bydd systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer y compownd a'r ffordd fynediad yn defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy. Bydd pantiau a phyllau'n hwyluso'r gwaith o reoli dŵr wyneb a manteision bioamrywiaeth.
- 5.1.18 Bydd rhyng-gipiwr olew yn cael ei osod o dan y ddaear cyn gollwng dŵr olewog o ardaloedd newidyddion wedi'u byndio i'r basn gwanhau.

Tirweddau a gwella ecolegol

- 5.1.19 Cynigir tirlunio caled a meddal ar draws y Safle, i ddynodi ac ategu ffiniau, i liniaru effaith weledol y prosiect ac i sicrhau budd net i fioamrywiaeth.
- 5.1.20 Mae mesurau sydd wedi'u cynllunio i ddarparu Budd Net i Fioamrywiaeth (NBB) yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Fframwaith DECCA wedi'u nodi yn y Datganiad Seilwaith Gwyrdd. Yn gwyno bydd y rhain yn:
- gwella a chreu cynefinoedd a gwella cysylltedd cynefinoedd;
 - cynnal rhywogaethau gwarchodedig a nodedig; a
 - darparu ar gyfer rheoli a monitro hirdymor i sicrhau enillion bioamrywiaeth.

Tynnu llinellau uwchben 132kV presennol

- 5.1.21 Bydd y llinellau uwchben 132kV presennol sy'n croesi Safle'r datblygiad arfaethedig yn cael eu dargyfeirio gan DNO NGED. Bydd y gwaith hwn yn cael caniatâd ar wahân gan NGED ac er



nad yw'r manylion penodol yn hysbys eto, tybir y bydd y llinellau newydd yn cael eu gosod o dan y ddaear.

5.2 Rhaglen Adeiladu a Chomisiynu

5.2.1 Bydd y Prosiect yn cael ei ddylunio, ei adeiladu a'i weithredu yn unol â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol. Bydd hefyd yn cydymffurfio â safonau diogelwch dylunio gan gynnwys Safon Ansawdd a Diogelwch y System Trawsyrro Trydan Genedlaethol (NETS SQSS), sy'n diffinio'r meini prawf a'r fethodoleg ar gyfer cydlynu a gweithredu'r System Trawsyrro Trydan Genedlaethol. Mae NETS SQSS yn hysbysu cyfres o bolisïau a phrosesau'r National Grid, sy'n nodi'r safonau a'r trothwyon dylunio y mae'n rhaid eu bodloni wrth ddylunio, adeiladu a gweithredu asedau fel yr is-orsafoedd arfaethedig.

5.2.2 Disgwylir i'r gwaith o adeiladu a chomisiynu'r Prosiect gymryd 48 mis, gan ddechrau yn 2026. Bydd y gwaith adeiladu a chomisiynu yn cynnwys y prif gamau canlynol:

Cam 1 - Paratoi'r safle: Bydd y cam adeiladu yn dechrau drwy baratoi'r safle, codi cyfleusterau gweithwyr adeiladu dros dro, creu'r ffordd fynediad newydd a darparu mannau parcio a gosod ar draws Safle'r Prosiect. Bydd ffensys dros dro o amgylch y ffin yn cael eu codi yng nghanntaf y rhaglen adeiladu i sicrhau bod y compownd adeiladu'n ddiogel. Mae'n bosibl y bydd gwyriad dros dro y llinellau uwchben yn cael ei osod yn ystod cam cynnar y gwaith adeiladu er mwyn galluogi mynediad i ddatblygu'r plattform.

Cam 2 - Gwaith cloddio: Bydd y cam hwn yn cynnwys y gwaith cloddio sydd ei angen i osod lefel y Safle ar gyfer y plattform arfaethedig. Ar y cam hwn, bydd y tir yn cael ei lefelu a bydd y gwaith cloddio llethrog yn cael ei gwblhau.

Cam 3 - Gwaith sifil: Yn ystod y cam hwn, bydd y Contractwr yn cloddio'r Safle, yn creu'r cafnau ceblau a ffurf y sylfaen, yn tywallt concrit ac yn gosod atgyfnerthiadau. Ar ôl i'r concrit galedu, bydd strwythurau dur yn cael eu codi a'u cydosod i gynnal yr offer trydanol ac adeiladau'r Safle. Bydd holl adeiladau angenrheidiol y Safle, y goleuadau a ffens ffin yr is-orsaf yn cael eu hadeiladu.

Cam 4 - Offer trydanol: Yn ystod y cam hwn, bydd offer trydanol (e.e. Offer switsys, SGTs, bwsbarau ac ati) yn cael eu gosod ar sylfeini a strwythurau dur ac yn cael eu cysylltu â'u lleoliadau priodol, gan gynnwys adeiladau a chydrannau peiriannau eraill.

Cam 5 - Gwaith llinellau uwchben: Bydd y cam hwn o'r gwaith yn cynnwys adeiladu'r ddau dŵr newydd a chodi un tŵr newydd yn lle'r un presennol.

Cam 7 - Glanhau: Bydd y cam hwn yn cynnwys adfer y tir lle mae mannau gosod dros dro a lles wedi cael eu hadeiladu. Gellir gosod graean ychwanegol dros y Safle.

Cam 8 - Pweru: Ar ôl cwblhau'r holl archwiliadau angenrheidiol, bydd yr is-orsafoedd yn barod i gael eu pweru.

Oriau Gwaith Adeiladu

5.2.3 Mae rhaglen adeiladu'r Prosiect yn tybio wythnos waith chwe diwrnod. Yr oriau gwaith craidd arfaethedig yw 07:00 i 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a 08:00 i 16:00 ar ddydd Sadwrn heb unrhyw waith ar ddydd Sul na gwyliau cyhoeddus heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan CSC.

Diogelwch a Goleuadau'r Safle Adeiladu

5.2.4 Bydd y seilwaith a'r staff angenrheidiol i ddarparu Safle adeiladu diogel yn cael eu darparu a bydd offer i reoli mynediad heb awdurdod i'r Safle yn cael ei osod. Bydd yr holl systemau'n cael eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd.



Datganiad Cynllunio

- 5.2.5 Bydd y safle adeiladu wedi'i oleuo'n ddigonol i sicrhau amodau gwaith diogel. Bydd yr holl oleuadau'n cael eu lleoli a'u haddasu fel nad ydynt yn achosi niwsans i eiddo cyfagos. Bydd goleuadau yn ystod y nos, y tu allan i oriau gwaith, yn cael eu lleihau i'r lefel isaf sy'n gymesur â'r angen i gynnal gofynion diogelwch y safle a lleihau'r effaith amgylcheddol a llygredd golau.

Cynlluniau Rheoli Adeiladu

- 5.2.6 Yn unol â'r holl brosiectau datblygu o'r math a'r maint hwn sy'n cael eu cyflawni gan y National Grid, bydd Cynllun Rheoli Adeiladu Amlinellol (CEMP Amlinellol) yn cael ei gynhyrchu i ddod â'r rheolaethau statudol sydd eu hangen at ei gilydd yn ystod cam adeiladu'r Prosiect. Bydd y CEMP Amlinellol hefyd yn nodi mesurau arfer gorau safonol i reoli cam adeiladu'r datblygiad, er nad yw'r mesurau hynny nad ydynt wedi'u mandadu gan statud wedi cael eu hystyried wrth asesu'r effeithiau sylweddol tebygol sydd yn yr adroddiad hwn. Bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) hefyd yn cael ei baratoi a'i roi ar waith.

- 5.2.7 Bydd gwastraff yn cael ei reoli yn unol â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle. Bydd angen compownd ar y safle ar gyfer y gwaith, a fydd yn cynnig cyfleusterau trin gwastraff.

Gwella a Lliniaru Ecolegol a Thirweddol

- 5.2.8 Bydd Datganiad Seilwaith Gwyrdd yn cyd-fynd â'r cais cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Bydd hyn yn rhoi manylion mesurau i liniaru'r effeithiau gweledol ac ecolegol ar y dirwedd sy'n gysylltiedig â'r cynllun a sicrhau manteision, gan gynnwys budd net i fioamrywiaeth.

Gweithredu

- 5.2.9 Ni fydd gweithwyr yn yr Is-orsaf arfaethedig yn ystod y cam gweithredu. Mae cyfleusterau Lles a Swyddfa wedi'u cynnwys ar gyfer staff gan y bydd angen ymweliadau safle rheolaidd ar gyfer archwilio a chynnal a chadw.

Mynediad

- 5.2.10 Mae angen mynediad parhaol i gerbydau er mwyn gallu archwilio a chynnal a chadw offer yr is-orsaf yn rheolaidd. Efallai y bydd angen newid neu uwchraddio cydrannau'r is-orsaf yn y dyfodol hefyd. Ni fydd unrhyw staff wedi'u lleoli ar safle'r is-orsaf.
- 5.2.11 Bydd ffordd fynediad newydd yn cael ei chreu i gysylltu'r is-orsaf â'r A484. Mae angen y ffordd fynediad er mwyn darparu mynediad ar gyfer cam gweithredu a cham adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig. Yn ystod y cam adeiladu, mae angen i'r ffordd fynediad hwyluso'r gwaith o gludo cydrannau mwyaf yr is-orsaf i'r Safle. Y mwyaf o'r rhain yw'r Newidyddion Uwchgrid. Rhagwelir y bydd y newidyddion yn cyrraedd Doc Penfro ar long ac yn teithio i'r Safle ar hyd yr A4139, yr A477, yr A40 a'r A484. Felly, mae'r ffordd fynediad wedi cael ei dylunio i hwyluso'r symudiad hwn yn ogystal â thraffig adeiladu cyffredinol.
- 5.2.12 Cynhaliwyd ymarfer opsiynau llwybr i nodi'r aliniad sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y ffordd fynediad newydd. Ystyriwyd amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys perchnogaeth tir, caniatâd adeiladu ffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd, symud cerbydau (dadansoddiad llwybr troi), aliniad, topograffi, ecoleg, draenio, treftadaeth, ansawdd aer a sŵn. Mae'r ffordd fynediad newydd i'r de o'r C2074 bresennol gyda mynediad uniongyrchol i'r A484. Mae'n tua 600m o hyd ac mae'n croesi tua'r dwyrain ar draws caeau presennol i gyrraedd safle'r is-orsaf.



6 Hanes Cynllunio Perthnasol a Chyd-destun Polisi Cynllunio

6.1 Cyflwyniad

- 6.1.1 Mae'r Adran hon yn nodi'r hanes cynllunio perthnasol ar y Safle a'r ardal gyfagos ac yn nodi'r polisi cynllunio Cenedlaethol a pholisïau'r Cynllun Datblygu ar gyfer penderfynu ar y cais hwn.

6.2 Hanes Cynllunio Perthnasol

- 6.2.1 Yn dilyn adolygiad o gyfleuster chwilio ar-lein cynllunio CSC, nid oes hanes cynllunio perthnasol ar y Safle nac o fewn 5km i'r ardal gyfagos.

6.3 Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

- 6.3.1 O dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ystyrir bod datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (DNS) yn geisiadau cynllunio sydd o'r arwyddocâd mwyaf i Gymru oherwydd eu budd a'u heffaith bosibl.

- 6.3.2 Mae dau Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol diweddar ar wefan PEDW sy'n ymwneud â'r ardal leol. Fodd bynnag, mae'r rhain ar y 'cam ymchwilio' ac yn aros am wybodaeth gan gynnwys dyddiadau dechrau. Dyma'r achosion;

DNS CAS-03094-T7D9GO - Cysylltiad Grid Green GEN Tywi Teifi, ar gyfer cysylltiad llinell uwchben 132kV o Barc Ynni arfaethedig Lan Fawr i is-orsaf newydd arfaethedig ger Caerfyrddin. Mae'r achos ar y cam 'Cyn Ymgeisio', yn aros am wybodaeth.

DNS CAS-02379-G1Z1J0 - Prosiect Green GEN Tywi-Wysg, ar gyfer cysylltiad llinell uwchben 132kV o Barc Ynni arfaethedig Nant Mithil i is-orsaf newydd arfaethedig ger Caerfyrddin. Nid oes cam achos wedi'i gyhoeddi.

Tabl 1: Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol sydd wedi cael eu cymeradwyo yn yr ardal leol.

Cyfeirnod a Lleoliad DNS	Disgrifiad o'r Datblygiad	Statws
DNS/3213164: Llangennech Fferm Solar, tir ar Fferm Blaenhiraeth, Llangennech, Llanelli, SA14 8PX. Mae'r DNS hwn tua 14.5km i'r de ddwyrain o'r Safle.	Gosod, gweithredu ac wedyn datgomisiynu cynllun ynni adnewyddadwy sy'n cynnwys araeau ffotovoltaidd ar y ddaear ynghyd â chompownd yr is-orsaf, gorsafoedd newidyddion, trac mynediad mewnol, tirweddu, mesurau bioamrywiaeth, llwybr troed caniatol, ffensys diogelwch, mesurau diogelwch, giât fynediad, gwella mynediad a seilwaith ategol.	Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn amodol ar amodau ar 23 Gorffennaf 2021.
Tir i'r Dwyrain o'r A48 a Thir i'r De-orllewin o Dŷ-croes Mae'r Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol hwn	Cynllun arfaethedig ar gyfer gosod fferm solar ffotovoltaig (PV) ar y ddaear, gan gynnwys llwybr ceblau arfaethedig.	Mae'r cais ar hyn o bryd ar y cam archwilio.

tua 16km i'r de ddwyrain o'r Safle.		
--	--	--

6.4 Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol

- 6.4.1 Mae'r Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) perthnasol sydd wedi cael eu caniatáu ger y Safle ers 2015 wedi'u nodi yn nhabl 2 isod.

Tabl 2: NSIPs sydd wedi cael eu cymeradwyo yn yr ardal leol.

Lleoliad	Disgrifiad o'r Datblygiad	Statws
Mae'r NSIP llinellau trydan yn rhedeg yn gyfochrog bron â ffiniau'r Safle.	Gosod llinell drydan 132kV 28.6km (tua 25.3km uwchben y ddaear a 3.3km o dan y ddaear), gan gysylltu Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa â llinell uwchben bresennol ger Llandyfaelog.	Mae'r prosiect hwn ar y cam ar ôl y penderfyniad. Caniatwyd y cais hwn ar 6 Hydref 2016. Mae Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa, sy'n weithredol ers 2018, yn cynnwys 28 tyrbîn ac mae ganddi gapasiti cynhyrchu o tua 57.4 MW.
Mae'r orsaf gynhyrchu NSIP tua 27km i'r de-ddwyrain o'r Safle.	Gorsaf frig nwy a seilwaith cysylltu gyda chapasiti o hyd at 299 MW. Wedi'i lleoli i'r gogledd o Abertawe (i'r gogledd o'r M4, Cyffordd 46) yn Ninas a Sir Abertawe, tua 1 km i'r de-ddwyrain o Felindre, 750m i'r de-orllewin o Lwyncelyn ac 1.5 km i'r gogledd o Langyfelach.	Mae'r prosiect hwn yn y cam ar ôl penderfyniad. Caniatwyd y cais hwn ar 19 Medi 2019.

6.5 Cyngor Cyn Ymgeisio

6.5.1 Cyflwynwyd cais am gyngor cyn ymgeisio ar gyfer datblygiad arfaethedig yr is-orsaf (Cyfeirnod CSC: PRE/02162) i CSC ym mis Ebrill 2024. Cafwyd ymateb ar 13 Mehefin 2024, a oedd yn ymdrin â phum maes. Ceir crynodeb o'r pum maes yn eu tro isod (meini prawf (a) i (e):

Hanes cynllunio'r tir lle bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei gyflawni, i'r graddau sy'n berthnasol i'r cais arfaethedig.

Cadarnhaodd CSC nad oedd hanes cynllunio perthnasol ar y Safle.

a) *Darpariaethau'r cynllun datblygu, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r cais arfaethedig*

Darparodd CSC restr o bolisiâu perthnasol ar gyfer penderfynu ar y cais, ac mae'r rhain wedi'u nodi a'u trafod yn eu tro yn Adran 7 y PS hwn.

6.5.2 Mae'r rhestr o bolisiâu perthnasol a nodwyd gan CSC wedi cael ei defnyddio i hysbysu Adran 7 (Asesiad Cynllunio) y PS hwn.

b) *Unrhyw ganllawiau cynllunio atodol, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r cais arfaethedig.*

Nododd CSC fod y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gadwraeth Natur a Bioamrywiaeth yn ddogfennau canllawiau cynllunio perthnasol i'r cyflwyniad arfaethedig.

6.5.3 Defnyddiwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gadwraeth Natur a Bioamrywiaeth i hysbysu'r cais cynllunio.

c) *Unrhyw ystyriaethau eraill sy'n berthnasol neu a allai fod yn berthnasol ym marn yr awdurdod.*



Nododd CSC fod rhan o'r Safle ym Mharthau Llifogydd 2 a 3 cyrsiau dŵr bach a llifogydd dŵr wyneb a bod y Safle o fewn Clustogfa'r Biblinell Trosglwyddo Nwy LNG Cenedlaethol.

- d) Rhoddwyd sylw i lifogydd yn Adran 7 y PS hwn. Mae NGET yn ymwybodol o'r Biblinell Trosglwyddo Nwy LNG Cenedlaethol. Os rhoddir caniatâd, byddai angen gwneud gwaith galluogi i ddargyfeirio'r biblinell oddi wrth safle'r is-orsaf gan Wales and West Utilities, yr ymgymwrwr statudol perthnasol. Asesiad cychwynnol o'r datblygiad arfaethedig ar sail y wybodaeth a ddarparwyd o dan baragraffau (a) i (d).

6.5.4 Darparodd CSC y canllawiau canlynol (heb ragfarnu unrhyw benderfyniad ffurfiol):

- Nid yw polisi cynllunio yn atal datblygu o'r math hwn mewn ardaloedd o gefn gwlad agored.
- Mae'r Safle hefyd yn agos at y Rhwydwaith llinellau uwchben presennol.
- Byddai'r ACLI yn cytuno bod y 'Camau Nesaf' a nodir ar dudalennau 20 a 21 yn adlewyrchu'r materion y mae angen eu cynnwys mewn cais cynllunio ar gyfer y datblygiad hwn.
- Bydd angen dangos yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y camau sydd wedi'u cymryd tuag at sicrhau budd net i fioamrywiaeth, a nodi/lliniaru effeithiau gweledol/tirlunio.

6.6 Y Cynllun Datblygu

6.6.1 Mae adrannau 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cyf. 1-30) a pharagraff 1.18 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae'r Cynllun Datblygu ar gyfer safle'r gwaith arfaethedig yn cynnwys:

- Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cyf. 1-31)
- Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006-2021 (mabwysiadwyd 2014)

Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

6.6.2 Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol: Mabwysiadwyd y Cynllun Cenedlaethol 2040 ('Cymru'r Dyfodol') (Cyf. 1-31) gan Lywodraeth Cymru yn 2021 a dyma'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r strategaeth ofodol ar gyfer twf a datblygiad yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys darparu fframwaith ar gyfer lleoli datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

6.6.3 Mae Pennod 2 Cymru'r Dyfodol yn rhoi trosolwg o gyfleoedd a chyfyngiadau o ran twf yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys bwrw ymlaen i ostwng Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr, sy'n cynnwys cefnogi'r economi carbon isel a datblygu ynni adnewyddadwy (yn enwedig gwynt) a'r angen canlyniadol am seilwaith strategol newydd y grid i gefnogi twf cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel.

6.6.4 Mae Polisi 5: Cefnogi'r economi wledig, yn rhoi cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn ardaloedd gwledig. Mae'r testun ategol hefyd yn nodi cefnogaeth gref i ddatblygu technolegau arloesol a datblygol, gan gynnwys y rheini sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o helpu i ddatgarboneiddio Cymru.

6.6.5 Mae Polisi 9: Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd, yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei wella.

6.6.6 Mae Polisi 17: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig, yn cadarnhau'r gefnogaeth i'r egwyddor o ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob technoleg ac ar raddfa i ddiwallu anghenion ynni yn y dyfodol. Mae'r polisi'n cydnabod pwysigrwydd darparu seilwaith grid newydd i gyflawni'r twf mewn ynni adnewyddadwy ar yr amod bod seilwaith yn

cael ei “ddylunio i leihau'r effaith weledol ar gymunedau cyfagos”. Mae'n mynd ymlaen i ddatgan bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i weithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys y Grid Cenedlaethol a lleihau'r rhwystrau rhag gweithredu seilwaith grid newydd.

6.6.7 Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006-2021 (mabwysiadwyd 2014)

6.6.8 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 10 Rhagfyr 2014. Mae'r CDLI yn nodi'r weledigaeth ofodol ar gyfer dyfodol Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r ardal honno ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a fframwaith ar gyfer dosbarthu a chyflawni twf a datblygiad. Mae'n nodi cynigion a pholisïau cynllunio defnydd tir sy'n cael eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio ac i lywio cyfleoedd ar gyfer buddsoddi a thwf yn y dyfodol.

6.6.9 Mae Adran 7 y PS hwn yn nodi polisïau cynllunio allweddol y CDLI sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i benderfynu ar y cais ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.

6.7 Ystyriaethau Perthnasol

6.7.1 Yn unol ag Adran 38(6) y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, mae angen i gynigion datblygu fod yn unol â'r cynllun datblygu yn ei gyfanrwydd. Os bernir nad yw cynnig datblygu yn unol â'r cynllun datblygu, yna mae angen ystyried a oes unrhyw ystyriaethau perthnasol yn bodoli i gyfiawnhau gwro oddi wrth y cynllun datblygu. Ystyrir bod y Datblygiad Arfaethedig yn unol â'r cynllun datblygu yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, os bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad o'r farn bod gwahaniaethau'n bodoli mewn perthynas â'r cynllun datblygu, mae nifer o ystyriaethau perthnasol sy'n berthnasol i'r cais hwn sy'n gwro o blaid y cynllun.

6.7.2 Yn yr achos hwn, ystyrir bod y dogfennau canlynol yn berthnasol wrth ystyried a phenderfynu ar y cais hwn:

- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) (2024)
- Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni (EN-1) a Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5)
- Rheolau Horlock (2009)
- Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru (2025)
- Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (2024)
- Nodiadau Cyngor Technegol (NCT):
 - NCT 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)
 - NCT 11: Sŵn (1997)
 - NCT 12: Dylunio (2016)
 - NCT 15: Risg Llifogydd (2025)
 - NCT 18: Trafnidiaeth (2007)
 - NCT 23: Datblygu Economaidd (2014)
 - NCT 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)
- Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru (Mawrth 2022)
- CDLI Diwygiedig Newydd Sir Gaerfyrddin 2018-2033 (2018-parhaus)

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) (2024)

- 6.7.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2024) (Cyf. 1-32) yn nodi'r polisïau defnydd tir ar gyfer Llywodraeth Cymru gyda'r prif amcan o sicrhau bod *“y system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall”*.
- 6.7.4 Mae PCC yn sefydlu pum egwyddor gynllunio allweddol ar gyfer y system gynllunio, gyda'r nod o sicrhau'r datblygiad cywir, yn y lle cywir (paragraff 2.13), ac mae tair ohonynt yn berthnasol i'r gwaith arfaethedig:
- Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy - Galluogi datblygu sy'n cyfrannu at lesiant economaidd hirdymor, gan wneud y defnydd gorau o'r seilwaith presennol a chynllunio ar gyfer seilwaith a gwasanaethau ategol newydd.
 - Gwneud y defnydd gorau o adnoddau - Gwneud datblygiadau'n wydn i'r newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio cymdeithas a datblygu economi gylchol er budd yr amgylchedd adeiledig a naturiol.
 - Diogelu'r amgylchedd i'r eithaf a chyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd - Rhaid gwarchod, hyrwyddo, diogelu a gwella asedau naturiol, hanesyddol a diwylliannol. Dylid osgoi effeithiau amgylcheddol negyddol er budd ehangach y cyhoedd.
- 6.7.5 Mae Pennod 3 Dewisiadau Strategol a Gofodol yn ymhelaethu ar fanteision creu lleoedd strategol effeithiol, gan gynnwys paragraff 3.61, sy'n darparu *“angen am seilwaith ategol sy'n 'ddigonol ac yn effeithlon', gan gynnwys seilwaith trydan y cydnabyddir ei fod yn 'hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol’*.
- 6.7.6 Ym Mhennod 5 Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus, ymdrinnir ag elfennau economaidd creu lleoedd. Mae paragraff 5.7.2 yn cydnabod y bydd angen buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith cynhyrchu, trawsyrru a dosbarthu ynni er mwyn diwallu'r galw yn y dyfodol. Cydnabyddir ym mharagraff 5.7.7, er mwyn cyflawni ymrwymadau cyffredinol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd y dylai'r system gynllunio *“integreiddio datblygiad â darparu seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol”*.
- 6.7.7 Mae paragraff 5.7.8 yn nodi y dylid mabwysiadu dull integredig o gynllunio ar gyfer datblygiadau ynni a seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol i gyflawni uchelgeisiau adnewyddadwy a charbon isel Llywodraeth Cymru. Cydnabyddir y bydd angen seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol i gefnogi datblygiadau cynhyrchu ynni newydd yn fwy cyffredinol.
- 6.7.8 Amlinellir safbwynt Llywodraeth Cymru ar linellau pŵer newydd ym mharagraff 5.7.9, sy'n datgan y dylid eu gosod o dan y ddaear. Mae paragraff 5.7.9 yn cydnabod y dylid cael safbwynt cytbwys yn hyn o beth, gan ystyried cost llinellau tanddaearol a allai olygu nad fyddai prosiectau a fyddai fel arall yn dderbyniol yn ymarferol. Lle nad yw'n bosibl gosod llinellau o dan y ddaear, dylid ymgysylltu'n rhagweithiol â chwmnïau ynni a'r cyhoedd i liniaru effeithiau gwledol llinellau newydd.
- 6.7.9 Mae paragraff 5.9.10 yn datgan y *“dylai awdurdodau cynllunio gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer seilwaith grid”*, gyda datblygiadau grid priodol yn cael eu cefnogi, a chynlluniau datblygu sy'n hwyluso seilwaith grid sydd ei angen i gefnogi ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel. Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi datblygiadau grid priodol, ni waeth a ydynt wedi'u lleoli yn eu hawdurdod ai peidio.
- 6.7.10 Mae Pennod 6 Lleoedd Unigryw a Naturiol yn ymdrin ag elfennau amgylcheddol a diwylliannol creu lleoedd ac yn darparu canllawiau manwl sy'n ymwneud ag ystod eang o bynciau amgylcheddol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, yr amgylchedd hanesyddol, tirwedd, bioamrywiaeth ac ecoleg, amgylchedd dŵr ac ansawdd aer.

Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni (EN-1) a Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5)

Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni (EN-1)

- 6.7.11 Daeth y Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni (EN-1) (Cyf. 1-36) a gyhoeddwyd gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) i rym ym mis Ionawr 2024. Mae NPS EN-1 yn nodi'r polisi cenedlaethol ar gyfer seilwaith ynni, gan gynnwys "y system trawsyrru a dosbarthu trydan". Mae'n pwysleisio'r angen am brosiectau ynni newydd a fydd yn cyfrannu at gyflenwad ynni diogel, amrywiol a fforddiadwy. Mae paragraff 1.4.2 yn nodi bod, "... *polisi ynni fel arfer yn fater a gedwir yn ôl i Weinidogion y DU ac felly gall y Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn fod yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio yng Nghymru a'r Alban*".
- 6.7.12 O ystyried hyn, gall NPS EN-1 a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5) a ddaeth i rym hefyd ym mis Ionawr 2024, fod yn ystyriaethau perthnasol mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.
- 6.7.13 Mae paragraffau 3.2.6 i 3.2.8 NPS EN-1 (Cyf. 1-37) yn sefydlu'r angen am y mathau o seilwaith sy'n dod o dan EN-1. Mae'r paragraffau hyn yn nodi bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu y dylid rhoi cryn bwys ar yr angen hwn wrth ystyried ceisiadau. Mae paragraff 3.3.65 yn ychwanegu bod "angen taer i seilwaith rhwydwaith trydan newydd gael ei gyflwyno'n gyflym er mwyn cyflawni ein hamcanion ynni". Ar ben hynny, mae paragraff 3.3.68 yn cydnabod bod "swm y gwaith atgyfnerthu ar y tir sydd ei angen i gyrraedd targedau datgarboneiddio yn sylweddol".
- 6.7.14 Mae paragraff 4.11.3 yn nodi sut mae'r llywodraeth yn cyflymu'r gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith grid i hwyluso'r gwaith o ddatblygu a throsglwyddo cynhyrchu ynni sero net yn y DU. Mae dylunio da yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu seilwaith ynni adnewyddadwy, gyda pharagraff 4.7.2 yn amlinellu bod disgwyl i brosiectau ynni gynhyrchu seilwaith sy'n sensitif i le. Mae paragraff 4.7.2 hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y llywodraeth yn cydnabod y cyfyngiadau y gallai Ymgeisydd eu cael o ran ymddangosiad ffisegol seilwaith ynni. Mae hyn yn cael ei ategu gan Baragraff 4.7.6 sy'n datgan "efallai na fydd gan yr ymgeisydd unrhyw ddewis neu ddewis cyfyngedig iawn o ran ymddangosiad ffisegol rhywfaint o seilwaith ynni".

Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-5

- 6.7.15 Mae paragraff 1.1.1 EN-5 (Cyf. 1-37) yn egluro bod mwy o gapasiti yn rhwydwaith trydan y DU yn hanfodol i sicrhau diogelwch a dibynadwyedd y cyflenwad ynni nawr ac yn y dyfodol, er mwyn darparu'r seilwaith sydd ei angen i hwyluso'r newid i sero net. Mae paragraff 1.1.2 yn mynd ymlaen i egluro bod angen llawer iawn o'r seilwaith rhwydwaith trydan newydd hwn yn y tymor agos, i gefnogi uchelgais y Llywodraeth o ddefnyddio hyd at 50 GW o gapasiti gwynt ar y môr erbyn 2030. Heb rwydwaith trydan dibynadwy a diogel, mae EN-5 yn nodi'n glir na ellir cyflawni'r uchelgais hwn.
- 6.7.16 Mae paragraff 1.1.5 EN-5 yn cadarnhau "Fel y nodir yn EN-1, bod y llywodraeth wedi dod i'r casgliad bod yna flaenoriaeth genedlaethol hollbwysig (CNP) ar gyfer darparu seilwaith carbon isel o arwyddocâd cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys seilwaith y grid trydan, pob llinell bŵer sydd o fewn cwmplas EN-5 gan gynnwys gwaith i atgyfnerthu ac uwchraddio'r rhwydwaith, a seilwaith cysylltiedig fel is-orsafoedd."

Rheolau Horlock

- 6.7.17 Sefydlwyd Rheolau Horlock - canllawiau ar gyfer dylunio a lleoli is-orsafoedd - gan y National Grid yn unol â'i ddyletswyddau o dan Atodlen 9 i Ddeddf Trydan 1989. Dylai'r egwyddorion hyn gael eu hymgorffori yng nghynigion ymgeiswyr ar gyfer y seilwaith sy'n gysylltiedig â llinellau uwchben newydd.
- 6.7.18 Mae'r 'Rheolau Horlock' yn cynnwys cyfres o feini prawf sy'n berthnasol i is-orsafoedd newydd, estyniadau i is-orsafoedd ac addasiadau, sy'n rhoi sylw i'r ystyriaethau canlynol:

1. Dewisiadau Cyffredinol y System a Dewis Safle:

Wrth ddatblygu opsiynau system gan gynnwys is-orsafoedd newydd (neu rai a amnewidir), rhaid ystyried materion amgylcheddol o'r cam cynharaf er mwyn cydbwysu'r manteision technegol a'r gofynion cost cyfalaf ar gyfer datblygiadau newydd yn erbyn yr effeithiau amgylcheddol canlyniadol er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol.

2), 3) Amwynder, Gwerth Diwylliannol neu Wyddonol Safleoedd

Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylai lleoli is-orsafoedd newydd (neu rai a amnewidir) y Grid Cenedlaethol, compowndiau pennau selio ceblau (CSE) a mynedfeydd llinellau geisio osgoi ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol ac yn genedlaethol o'r gwerth amwynder, diwylliannol neu wyddonol uchaf drwy gynlluniau cysylltiadau'r system yn gyffredinol. Dylai ardaloedd o werth amwynder lleol, cynefinoedd presennol pwysig a nodweddion tirwedd gan gynnwys coetir hynafol, gwrychoedd hanesyddol, ffynonellau dŵr wyneb a dŵr daear ac ardaloedd cadwraeth natur gael eu gwarchod cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

4), 5), 6) Cyd-destun Lleol, Defnydd Tir a Chynllunio Safleoedd

Dylai lleoliad is-orsafoedd, estyniadau a chynigion cysylltiedig fanteisio ar y sgrinio a ddarperir gan dirffurf a nodweddion presennol a'r defnydd posibl o gynllun a lefelau'r Safle i sicrhau cyn lleied â phosibl o ymyrraeth ar yr ardaloedd cyfagos. Dylai'r cynigion sicrhau cyn lleied ag sy'n ymarferol bosibl o effeithiau gweledol, sŵn ac effeithiau amgylcheddol eraill. Dylid ystyried effeithiau defnydd tir y cynnig wrth gynllunio lleoliad is-orsafoedd neu estyniadau.

7) Dylunio

Wrth ddylunio is-orsafoedd neu fynedfeydd llinellau newydd, dylid rhoi ystyriaeth gynnar i'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer tyrau terfynellau, offer, adeiladau a datblygiadau ategol sy'n briodol i leoliadau unigol, gan geisio lleihau'r effeithiau i'r graddau mwyaf posibl sy'n rhesymol ymarferol.

Dylid defnyddio gofod yn effeithiol i gyfyngu ar yr ardal sydd ei hangen ar gyfer datblygu sy'n gyson â mesurau lliniaru priodol ac i leihau'r effeithiau niweidiol ar ddefnydd tir presennol a hawliau tramwy, gan ystyried ymestyn yr is-orsaf yn y dyfodol ar yr un pryd. Dylai dyluniad ffyrdd mynediad, ffensys terfyn, siapiau pridd, plannu a datblygiadau ategol fod yn rhan annatod o gynllun a dyluniad y Safle i gyd-fynd â'r ardal gyfagos.

Mae defnyddio'r uchod yn helpu i gyflawni atebion lleoli a dylunio sy'n dderbyniol yn amgylcheddol ar gyfer datblygiadau is-orsafoedd, a chydymffurfiwyd â hyn drwy gydol y gwaith o baratoi'r Astudiaeth Leoli hon.

Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru

- 6.7.19 Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ('y Ddeddf') yn gosod y fframwaith er mwyn i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae gan y Ddeddf darged i gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr Sero Net erbyn 2050, gydag unrhyw allyriadau gweddilliol yn cael eu cydbwysu drwy dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer. Mae yna dargedau degawdol hefyd yn 2030 a 2040 a chapiau pum mlynedd ar allyriadau yng Nghymru, a elwir yn gyllidebau carbon, a ddechreuodd yn 2016. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gynghori Llywodraeth Cymru ar lefel y targedau hyn.
- 6.7.20 Y lefel a argymhellir ar gyfer Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru ar gyfer y gyllideb yw gostyngiad o 73% mewn allyriadau blynyddol cyfartalog o'i gymharu â llinell sylfaen 1990, yn ystod y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2031 a 2035, gan gynnwys Cymru. Mae'r adroddiad yn

nodi y bydd twf ynni adnewyddadwy yn darparu'r rhan fwyaf o'r gostyngiad mewn allyriadau sydd ei angen rhwng 2030 a 2040.

Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024

- 6.7.21 Mae Strategaeth Ymaddasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 yn amlinellu camau gweithredu a chynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'n tynnu sylw at fentrau nawr ac yn y dyfodol sydd â'r nod o addasu i amodau hinsawdd sy'n newid, gan gynnwys ymatebion i aeafau gwlypach a hafau cynhesach. Mae cam gweithredu rhif225 yn datgan:

“Sicrhau bod cadernid y cyflenwad ynni yn cael ei ystyried yn ein gwaith cynllunio strategol parhaus ar gyfer system ynni sero net, yng ngoleuni'r cynnydd a ragwelir yn y galw am drydan yn benodol, ac wrth gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy wrth i'r galw am ynni a chynhyrchu ynni symud oddi wrth olew a nwy tuag at gyflenwadau ynni adnewyddadwy a charbon isel.”

Nodiadau Cyngor Technegol (NCT)

- 6.7.22 Ategir Polisi Cynllunio Cymru gan Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) sy'n seiliedig ar bynciau, ac mae cyfanswm o 21 ohonynt. Mae'r Nodiadau Cyngor Technegol hyn yn darparu cyngor cynllunio manwl ac maent yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yng Nghymru. Mae'r Nodiadau Cyngor Technegol canlynol yn arbennig o berthnasol i'r cynnig.

NCT 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

- 6.7.23 Mae NCT 5 yn nodi canllawiau ar sut y dylai datblygiad gyfrannu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol.

NCT 11: Sŵn (1997)

- 6.7.24 Mae gofyniad yn NCT 11 i geisiadau cynllunio leihau effaith niweidiol sŵn sy'n gosod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiadau neu'n ychwanegu'n ormodol at gostau a beichiau gweinyddol busnes.

NCT 12: Dylunio (2016)

- 6.7.25 Mae NCT 12 yn hyrwyddo cynaliadwyedd drwy ddylunio da a 'Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy'. Er mwyn creu datblygiad cynaliadwy, rhaid i'r dyluniad fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y datblygiad, gan gynnwys ei adeiladu, ei weithredu a'i reoli, a'i berthynas â'r hyn sydd o'i gwmpas.

NCT 15: Risg Llifogydd (2025)

- 6.7.26 Mae NCT 15 yn cynnig canllawiau technegol sy'n ategu'r polisi a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru ynghylch datblygu a llifogydd. Mae'n rhoi cyngor ar ddatblygu a pherygl llifogydd mewn perthynas ag egwyddorion cynaliadwyedd ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer asesu risgiau llifogydd afonydd ac arfordirol, yn ogystal â dŵr ffo ychwanegol o ddatblygiadau mewn unrhyw leoliad.

NCT 18: Trafnidiaeth (2007)

- 6.7.27 Mae'r NCT hwn yn rhoi arweiniad ar bynciau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Mae paragraff 3.11 NCT 18 yn datgan y dylai datblygiad *“mewn lleoliadau gwledig ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, gan gydbwysu'r angen i gefnogi'r economi wledig, tra'n cynnal a gwella ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwledig.”*

- 6.7.28 Er nad ystyrir bod Paragraff 3.11 NCT 18 yn uniongyrchol berthnasol i faterion trafndiaeth yng nghyd-destun y cais hwn, mae'r Datganiad Trafnidiaeth yn dangos cysondeb â'r gofynion cynllunio angenrheidiol.

NCT 23: Datblygu Economaidd (2014)

- 6.7.29 Mae NCT 23 yn cadarnhau y gall y "*manteision economaidd sy'n gysylltiedig â datblygu fod wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ymhell y tu hwnt i'r ardal lle mae'r datblygiad wedi'i leoli. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod y system gynllunio'n cydnabod, ac yn rhoi pwys dyledus, ar y manteision economaidd sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd.*"
- 6.7.30 Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn darparu manteision ar draws de Cymru o ran manteision uniongyrchol i'r gadwyn gyflenwi, swyddi lleol yn ystod y cam adeiladu, gwell capasiti ynni i fusnesau, ac yn anuniongyrchol drwy alluogi swyddi yn y sector ynni adnewyddadwy.

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)

- 6.7.31 Pwrpas NCT 24 yw arwain y ffordd y mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac Adeiladau Rhestredig (LBC).

Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru (2022)

- 6.7.32 Nod Cynllun Strategaeth Ynni Rhanbarthol De-orllewin Cymru (Cynllun Strategaeth) yw datgarboneiddio'r system ynni a chyflawni sero net erbyn 2050. Mae'r Cynllun Strategaeth yn canolbwyntio ar harneisio potensial ynni carbon isel y rhanbarth a gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac ecosystemau'r rhanbarth. Mae'n nodi llwybr datgarboneiddio posibl ac yn nodi ymyriadau allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth.

CDLI Diwygiedig Newydd Sir Gaerfyrddin 2018-2033

- 6.7.33 Yn 2018, penderfynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin baratoi CDLI diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae'r amserlen ar gyfer paratoi'r CDLI Diwygiedig wedi'i nodi yn y Cytundeb Cyflawni (DA) y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLI Diwygiedig yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio.
- 6.7.34 Fodd bynnag, mae'r gwaith o gynhyrchu'r CDLI Diwygiedig wedi cael ei ohirio oherwydd bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyhoeddi targedau newydd sy'n ceisio lleihau lefelau ffosffad afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ledled Cymru. Mewn ymateb i'r targedau newydd hyn a'r heriau y maent yn eu cyflwyno, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i ailasesu goblygiadau'r targedau newydd ar gyfer y CDLI a'r dyraniadau datblygu mewn dalgylchoedd sensitif i ffosffad. Yn ogystal â thargedau newydd Cyfoeth Naturiol Cymru, mae nifer o faterion eraill wedi codi ers eu cyhoeddi a fydd yn effeithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ac y mae angen eu hystyried ymhellach.
- 6.7.35 Cytunwyd felly mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn yn 2022 i ganiatáu diwygiadau i amserlen y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig i baratoi ail CDLI Diwygiedig Adneuo. Mae hyn er mwyn caniatáu amser i werthuso'r goblygiadau ac i gasglu tystiolaeth a data hanfodol ac i ddatblygu opsiynau lliniaru i fynd i'r afael â'r mater ffosffad, ymysg ystyriaethau eraill.
- 6.7.36 Hyd nes y bydd y CDLI Diwygiedig yn cael ei fabwysiadu, bydd Cynllun Datblygu Lleol 2006-2021 yn aros yn ei le ar gyfer pob penderfyniad cynllunio, yn unol â chynghor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

7 Asesiad Cynllunio

7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae'r Adran hon o'r PS yn nodi bod yn rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Ar sail yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu, polisi cynllunio cenedlaethol ac ystyriaethau perthnasol eraill a gyflwynir uchod neu yn Adran 6 y Datganiad Cynllunio hwn, ac o ystyried natur y cynllun, mae nifer o bynciau wedi cael eu nodi sy'n cynrychioli'r ystyriaethau cynllunio allweddol sy'n berthnasol i benderfynu ar y cais ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.

7.1.2 Mae'r pynciau hyn fel a ganlyn:

- Egwyddor Datblygu
- Dosbarthiad Tir Amaethyddol
- Tirwedd a Gweledol
- Treftadaeth Ddiwylliannol
- Ecoleg (yn cynnwys coedyddiaeth)
- Ansawdd a Defnydd Tir
- Traffig a Thrafnidiaeth
- Dŵr (gan gynnwys dŵr daear, dŵr wyneb a pherygl llifogydd)
- Llygredd

7.1.3 Trafodir pob un o'r adrannau hyn yn eu tro isod.

7.2 Egwyddor Datblygu

7.2.1 Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rhaid i PCC gysoni anghenion datblygu a chadwraeth, gan sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac amwynder wrth ddefnyddio'r tir, sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy a diogelu, hyrwyddo, gwarchod a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol.

7.2.2 Mae PCC hefyd yn nodi amcanion ynghylch rhwydwaith grid trydan a storio ynni sy'n arbennig o berthnasol i'r datblygiad Arfaethedig. Mae PCC yn datgan bod rhwydwaith grid trydan effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau adnewyddadwy a charbon isel Llywodraeth Cymru.

7.2.3 Dylid integreiddio cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni a seilwaith grid. Efallai y bydd angen seilwaith grid ychwanegol i gefnogi prosiectau ynni newydd. Mae paragraff 5.7.10 yn nodi: *"Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer y seilwaith grid. Dylai cynlluniau datblygu hwyluso'r seilwaith grid sydd ei angen i gefnogi potensial ynni adnewyddadwy a charbon isel yr ardal, yn enwedig ardaloedd a nodwyd ar gyfer datblygiad o'r fath. Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi datblygiadau grid priodol, p'un a yw'r datblygiadau sydd i'w cysylltu wedi'u lleoli o fewn eu hawdurdod ai peidio."*

7.2.4 Mae paragraff 5.7.2 PCC wedi amlinellu twf disgwyledig yn y galw am ynni oherwydd bod trafndiaeth a gwres yn cael eu trydaneiddio fwyfwy. Er mwyn sicrhau bod modd ateb y galw

yn y dyfodol, mae PCC wedi tynnu sylw at y ffaith y dylid buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith cynhyrchu, trawsyrru a dosbarthu ynni.

- 7.2.5 Mae paragraff 5.7.7 PCC yn nodi'r dull gweithredu ar gyfer y system gynllunio o ran darparu ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan nodi y dylai integreiddio datblygu â darparu seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol ac optimeiddio datblygiadau newydd ar sail lleoliad er mwyn gallu defnyddio adnoddau'n effeithlon.
- 7.2.6 Mae PCC yn nodi ym mharagraff 5.7.11 y dylai awdurdodau cynllunio a'r diwydiant ynni (gan gynnwys y National Grid) ymgysylltu â'i gilydd i sicrhau bod cynlluniau datblygu yn ystyried materion seilwaith grid. Ar ben hynny, dylent sicrhau bod cynlluniau buddsoddi ar gyfer trawsyrru a dosbarthu yn cyd-fynd â'r potensial a nodwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ogystal â heriau trydaneiddio trafnidiaeth a gwres yn gynyddol yn y dyfodol.
- 7.2.7 Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnig llawer o fanteision sy'n bodloni targedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r datblygiad arfaethedig yn sicrhau bod cadernid y cyflenwad ynni yn cael ei ystyried yn ein gwaith cynllunio strategol parhaus ar gyfer system ynni sero net, yng ngoleuni'r cynnydd a ragwelir yn y galw am drydan yn benodol, ac wrth hwyluso'r gwaith o gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy wrth i'r galw am ynni a chynhyrchu ynni symud oddi wrth olew a nwy tuag at gyflenwadau ynni adnewyddadwy a charbon isel.
- 7.2.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050 gyda system o dargedau allyriadau interim a chyllidebau carbon.
- 7.2.9 Ar ben hynny, mae Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru, a gyhoeddwyd ar 14 Mai 2025, yn nodi: *"Rhwydweithiau a rhyng-gysylltiadau. Bydd angen cynyddu capasiti rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu yn gyflym i sicrhau bod modd cludo'r cyflenwad i ffynonellau galw wrth i gynhyrchu trydan gael ei ddatgarboneiddio fwyfwy ac wrth i'r galw gynyddu. Mae cysylltu'r grid trydan â marchnadoedd cyfagos yn galluogi mewnfario trydan pan fydd yn rhatach gwneud hynny ac yn darparu marchnad ar gyfer cynhyrchiant dros ben. Yn ein llwybr, mae Cymru'n parhau i fod yn allforiwr net trydan i Weriniaeth Iwerddon a gweddill y DU."*
- 7.2.10 Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd darged i 100% o'r trydan sydd ei angen yng Nghymru ddod o ffynonellau adnewyddadwy. Fodd bynnag, mae problemau ar hyn o bryd o ran cysylltu ynni adnewyddadwy â'r grid. Byddai'r datblygiad arfaethedig hwn yn galluogi cysylltu'r cynlluniau ynni adnewyddadwy yn Ne Cymru â'r grid ac yn ei dro bydd yn cyfrannu at hwyluso'r targed ynni adnewyddadwy 100%. Byddai hyn yn cynnwys y capasiti neilltuedig o 1.5GW a ddarperir gan Weithredwr System Ynni Genedlaethol NESO y Môr Celtaidd.
- 7.2.11 Y cynnig yw codi is-orsaf 400kV newydd (gan gynnwys platfform yr is-orsaf, y ffordd fynediad a'r seilwaith cysylltiedig). Nid oes unrhyw bolisiâu penodol sy'n cyfeirio at is-orsafydd yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (CDLIC) mabwysiedig. Wedi dweud hynny, fel y nodwyd yn yr ymateb cyn ymgeisio gan Swyddogion CSC, nid oes polisi i atal y Datblygiad Arfaethedig. Gan fod y cynnig ar gyfer seilwaith cyfleustodau, byddai pwyntiau perthnasol Polisi Strategol SP17: Seilwaith yn berthnasol, sy'n pwysleisio:

"Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau ategol i'r seilwaith cyfleustodau yn cael eu caniatáu yn yr amgylchiadau canlynol:

- a. *Maent yn ystyried eu lleoliad;*
- b. *Yn ymgorffori tirwedd;*
- c. *Ddim yn gwrthdaro â'r ardaloedd adeiledig, hanesyddol, diwylliannol a chadwraeth natur a nodweddion y dirwedd. (Polisi SP13 ac SP14)"*

- 7.2.12 Mae'r testun polisi ategol ym Mholisi Strategol SP17 Seilwaith Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (CDLIC) yn nodi bod bodolaeth gwasanaethau seilwaith priodol gan gynnwys trydan yn *"hanfodol i sicrhau bod bolisiâu a chynigion y Cynllun yn cael eu cyflawni."* Ar ben

hynny, mae'r testun yn nodi bod "y Cynllun, wrth geisio sicrhau twf cynaliadwy, yn cydnabod cyfraniad seilwaith ac yn ystyried gwelliannau yn y dyfodol."

- 7.2.13 Er nad yw'r Datblygiad Arfaethedig yn "ddatblygiad ategol i'r seilwaith cyfleustodau" mewn gwirionedd, mae'n ddatblygiad angenrheidiol a fydd yn caniatáu i NGET fodloni'r ceisiadau am gysylltiad â'r rhwydwaith trawsyrru gan ei gwsmeriaid.

Cydymffurfio â Pholisi Strategol SP17: Seilwaith.

- 7.2.14 Nodir isod sut mae'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â meini prawf a-c Polisi Strategol SP17.

Maen prawf a: Caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau ategol i'r seilwaith cyfleustodau pan fyddant yn ystyried eu lleoliad

- 7.2.15 Cynhaliodd NGET Astudiaeth Leoli gynhwysfawr i ganfod y Safle arfaethedig ar gyfer yr is-orsaf 400kV. Roedd Ardal yr Astudiaeth Leoli yn cynnwys ardal 2km o'r llinell uwchben 400kV 4YV bresennol rhwng tyrau 4YV139 i'r de o Langynog a 4YV226 i'r gorllewin o Lanedi (gyda chlustogfa 10% i gyfrif am unrhyw safleoedd posibl a allai fod ar ffin Ardal yr Astudiaeth Leoli). Roedd agosrwydd at y llinellau uwchben yn ystyriaeth allweddol mae'n pennu'r Ardal Astudiaeth Lleoli 2km er mwyn lleihau hyd y seilwaith ychwanegol sydd ei angen, gan gynnwys tyrau newydd a llinellau uwchben i gysylltu'n ôl â'r llinellau uwchben presennol. Paratowyd yr Astudiaeth Leoli yn annibynnol ar unrhyw wybodaeth am seilwaith posibl cwsmeriaid a gofynion cysylltu.
- 7.2.16 Dewiswyd y Safle fel y lleoliad mwyaf ymarferol a chost-effeithiol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Roedd yr astudiaeth hon yn asesu nifer o safleoedd ar sail dichonoldeb technegol, cyfyngiadau amgylcheddol, ac effaith bosibl ar y gymuned, gan ddod i'r casgliad mai'r Safle a ddewiswyd oedd yn cynnig y cydbwysedd gorau o'r ffactorau hyn. Roedd y cyfyngiadau amgylcheddol yn cynnwys tirwedd a gweledol, ecoleg, treftadaeth ddiwylliannol, trafnidiaeth, cynllunio ac effeithiau economaidd-gymdeithasol.
- 7.2.17 Yn gryno, rhoddwyd ystyriaeth i effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol, ecoleg, treftadaeth ddiwylliannol, trafnidiaeth, cynllunio ac economaidd-gymdeithasol. Dyma brif fanteision lleoliad y Safle:
- mae'r Safle yn union wrth ymyl y llinellau uwchben presennol sy'n cynrychioli ychydig iawn o effaith amgylcheddol, tirweddol a gweledol o ganlyniad i'r cysylltiad â'r is-orsaf.
 - mae'r Safle wedi'i gyfyngu'n dda yn weledol oherwydd gwrychoedd ar hyd ffiniau presennol caeau a phrifyrdd lleol.
 - mae'r Safle yn ddyrchafedig yn y dirwedd ond mae'n dirffurf gymharol wastad. Er gwaethaf ei safle dyrchafedig, ychydig o dderbynyddion gweledol a nodwyd, a byddai'r is-orsaf yn gweddu i gyd-destun y llinellau uwchben cyfagos gyda thir ar gael ar gyfer sgrinio.
 - nid yw'r Safle'n ddarostyngedig i gyfyngiadau amgylcheddol nodedig.
 - Er bod rhai eiddo preswyl cyfagos, mae'r pellteroedd gwahanu sy'n gysylltiedig ynghyd â thopograffeg a gwrychoedd/coetir rhyngddynt yn sgrinio'r Safle'n briodol rhag effeithio'n annerbyniol ar safonau amwynder preswyl cyfagos.
- 7.2.18 Ystyrir bod lleoliad y Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei ystyried yn ofalus a'i fod yn ymgorffori egwyddorion Rheolau Horlock ac felly'n cyd-fynd â maen prawf (a) Polisi SP17: Seilwaith Cynllun Datblygu Lleol Caerfyrddin.

Maen prawf b. Caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau ategol i'r seilwaith cyfleustodau pan fyddant yn cynnwys tirlunio



- 7.2.19 Canfu'r arfarniad tirwedd a gweledol (LVA) y byddai effeithiau uniongyrchol bach neu fach iawn ar dderbynyddion tirwedd yn ystod y cam adeiladu o ran cymeriad y dirwedd ar raddfa genedlaethol a LANDMAP, gydag effeithiau uniongyrchol cymedrol yn cael eu rhagweld yn y Safle o ran cymeriad y dirwedd, y rhwydwaith seilwaith gwyrdd, tirffurf, coed, coetir a gwrychoedd, a phatrymau a ffiniau caeau. Ni ragwelwyd unrhyw newid ar gyfer Ardal Tirwedd Arbennig Bae Sir Gaerfyrddin ac Aberoedd nac Ardal Tirwedd Arbennig Crib Calchfaen Sir Gaerfyrddin. Yn ystod y cam gweithredu, rhagwelir y bydd yr effeithiau ar yr holl dderbynyddion tirwedd yn lleihau dros amser wrth i fesurau lliniaru sefydlu, ar wahân i dirffurf y Safle o ystyried y newid parhaol o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig, a fyddai'n parhau i fod yn newid niweidiol cymedrol cyson.
- 7.2.20 Rhagwelir y bydd derbynyddion gweledol yn newid o ganlyniad i'r cynigion, yn enwedig o ran y rheini sy'n agos at y Safle, gyda derbynyddion VL1a, VL3a a VL4 yn profi effeithiau niweidiol mawr. Rhagwelwyd effeithiau niweidiol cymedrol ar dderbynyddion yn VL2 a VL7. Yn debyg i dderbynyddion tirwedd, fodd bynnag, byddai'r effeithiau hyn yn lleihau dros amser wrth i'r cynigion lliniaru gael eu sefydlu, gyda'r effeithiau'n lleihau i effeithiau niweidiol bach neu fach iawn ar gyfer VL2, VL3, VL3a, a VL7 erbyn Blwyddyn 15 y cam gweithredu. Byddai'r effeithiau'n niweidiol gymedrol ar VL1a a VL4 wrth ystyried y newid mewn golygfa o dderbynyddion sensitif iawn sy'n edrych yn uniongyrchol tuag at y Datblygiad Arfaethedig. Ni ragwelwyd unrhyw newid ar gyfer derbynyddion VL1, VL5 na VL6.
- 7.2.21 Mae asesiad manwl o dderbynyddion gweledol a thirwedd wedi'i nodi yn Atodiad C: Effeithiau ar y Dirwedd ac Atodiad D: Effeithiau Gweledol. Ystyrir bod y cynnig hwn yn cyd-fynd â maen prawf (b) Polisi SP17: Seilwaith Cynllun Datblygu Lleol Caerfyrddin.

Maen prawf c. Caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau ategol i'r seilwaith cyfleustodau lle nad ydynt yn gwrthdaro â'r ardaloedd adeiledig, hanesyddol, diwylliannol a chadwraeth natur a rhinweddau'r dirwedd. (Polisi SP13 ac SP14)

- 7.2.22 Fel y nodir yn Adran 6, mae egwyddorion Rheolau Horlock wedi cael eu hymgorffori wrth nodi lleoliad y cynnig ac yn y dyluniad ei hun. Mae Rheolau Horlock wedi hwyluso'r gwaith o liniaru'r effeithiau amgylcheddol a bodloni gofynion ac amcanion polisi cyffredinol.

Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn unol ag SP13: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol ac SP14: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol fel y nodir yn Adran 7.7 y PS hwn.

Crynodeb o gydymffurfiaid â Pholisi SP17: Seilwaith.

- 7.2.23 O ystyried pwysigrwydd strategol y Datblygiad Arfaethedig o ran cefnogi'r galw rhanbarthol am ynni a thwf diwydiannol, mae'r cynnig yn gyson â'r nod cyffredinol o gyflawni datblygu cynaliadwy ac felly ystyrir ei fod yn briodol o ran cynllunio a dylid ei ystyried yn dderbyniol mewn egwyddor; yn unol â nodau cyffredinol PCC a gofynion perthnasol Polisi Strategol SP17.

7.2.24 Dosbarthiad Tir Amaethyddol

- 7.2.25 Mae Polisi Strategol SP14: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, maen prawf (d) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau roi ystyriaeth briodol i gefn gwlad a thirweddau a'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrsas; (Gradd 2 a 3a).
- 7.2.26 Mae PCC12 paragraff 3.58 a 3.59 yn amlinellu polisi cenedlaethol ynghylch gwarchod BMVL Cymru. Mae PCC12 yn datgan: *"Dim ond os oes angen mawr am y datblygiad y dylid datblygu tir yng ngraddau 1, 2 a 3a"* ac *"Os oes angen datblygu tir yng ngraddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, dylid cyfeirio'r datblygiad at dir o'r radd isaf."*
- 7.2.27 Mae'r LVA yn darparu gwerthusiad o gyflwr y dirwedd a'r newidiadau a allai ddigwydd o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig.

- 7.2.28 Yn dilyn adolygiad o Fap 2 Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol (ALC) o Fap Data Cymru, mae'r Safle wedi'i gategoreiddio'n bennaf fel tir gradd 3b (gradd 3b: tir amaethyddol o ansawdd cymedrol) gydag ardal fach ar ffin de-ddwyreiniol y Safle yn cael ei chategoreiddio fel tir gradd 3a (mae dosbarth tir Gradd 3a o ansawdd da i gymedrol yn cael ei ystyried fel 'Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMVAL)').
- 7.2.29 Gradd 3b yw'r rhan fwyaf o'r safle ar wahân i ddarn bach o dir 3a ar hyd y ffin de-ddwyreiniol. Mae tir 3a yn rhan o lain grisiog sy'n mynd heibio coetir ymhellach i'r dwyrain o'r Safle. Bydd rhan ddeheuol y platfform a rhywfaint o blannu prysgwydd yn ymwithio i'r ardal risiog o dir 3a. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o'r tir 3a o fewn ffin y safle (i'r dwyrain o waith cloddio'r platfform a phrysgwydd) yn cael ei ddychwelyd i ddefnydd amaethyddol ar ôl cwblhau'r Datblygiad Arfaethedig. Felly, cyfyngir ar golli tir 3a.
- 7.2.30 Fel y nodir yn y brif adran uchod, ystyrir bod manteision y Datblygiad Arfaethedig o ran cadernid y cyflenwad ynni a chysylltiadau ynni adnewyddadwy yn drech na'r golled fach hon o BMVL 3a.

Gofynion lleoliadol y Safle

- 7.2.31 Fel y nodir uchod, dewiswyd y Safle yn dilyn astudiaeth leoli gynhwysfawr, yn ogystal â'r egwyddorion lleoli a nodir ym mharagraff 7.2.15 ac o'r herwydd dewiswyd y Safle oherwydd ei fanteision o ran lleoliad.
- 7.2.32 Mae lleoliad y Datblygiad Arfaethedig wedi'i gyfyngu gan ei ofynion gweithredol. Er enghraifft, mae angen ei leoli'n agos at linellau uwchben presennol. Mae angen i dopograffeg y Safle fod yn gymharol wastad hefyd, heb strwythurau ar y safle nac unrhyw nodweddion ecolegol pwysig. Mae'r ffactorau hyn yn cyfyngu'r lleoliadau lle gellir lleoli'r Datblygiad Arfaethedig. Ar ben hynny, dewiswyd y Safle gan fod angen llawer iawn o dir ar yr is-orsaf, nad yw ar gael yn gyffredinol mewn ardaloedd trefol, a'r flaenoriaeth yn yr ardaloedd trefol yw darparu tai a seilwaith cymunedol arall. Nid oes gan y Safle unrhyw asedau treftadaeth ar y safle nac asedau ecolegol sydd wedi'u dynodi'n lleol nac yn genedlaethol.
- 7.2.33 Fel y nodir ym mharagraffau blaenorol yr adran hon o'r PS, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cefnogi amcanion lleol a chenedlaethol ar gyfer grid trydan cadarn sy'n galluogi ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan ddiwallu'r galw am ynni nawr ac yn y dyfodol ar yr un pryd â sicrhau cyflenwad dibynadwy ar gyfer gweithrediadau diwydiannol. At ei gilydd, ystyrir bod y polisiâu cenedlaethol ar gyfer lleihau'r newid yn yr hinsawdd a manteision economaidd y Datblygiad Arfaethedig yn drech na'r posibilrwydd o golli rhan fach o'r BMVL a bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i'r golled yn unol â Pholisi Strategol SP14 CDLIC.
- 7.2.34 Bydd y Datblygiad arfaethedig hwn yn darparu seilwaith newydd i sicrhau dibynadwyedd a sefydlogrwydd y cyflenwad trydan i gartrefi a busnesau. Byddai hyn, yn ei dro, yn arwain at fanteision i'r gadwyn gyflenwi o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig ac, yn ei dro, yn creu effaith lluosydd gadarnhaol ar economi Cymru. Ar ben hynny, bydd yn gwella annibyniaeth a chadernid ynni ac yn hwyluso gostyngiad mewn achosion o darfu ar gyflenwadau ynni. Ystyrir felly bod y cynnig hwn yn cyd-fynd â maen prawf (d) Polisi Strategol SP14: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol.

7.3 Tirwedd a Gweledol

- 7.3.1 Mae pwysigrwydd gwarchod a gwella tirweddau ar draws Sir Gaerfyrddin yn llinyn sy'n rhedeg drwy nifer o bolisiâu strategol a generig CDLIC. Mae Polisi Strategol SP1: Mannau Cynaliadwy, mae maen prawf (c) yn datgan y dylai datblygiad barchu, adlewyrchu a, lle bynnag y bo modd, wella cymeriad a nodweddion unigryw lleol.
- 7.3.2 Mae maen Prawf (b) Polisi GP1: Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel CDLIC yn nodi y bydd cynigion datblygu yn cael eu cefnogi lle maent yn ymgorffori nodweddion presennol y dirwedd, yn ystyried cyfuchliniau'r safle a newidiadau mewn lefelau a nenlinellau neu gribau amlwg. Mae maen prawf (f) yn datgan y dylai datblygiad gadw, a lle bo'n briodol ymgorffori

nodweddion lleol pwysig a sicrhau y defnyddir tirlunio caled a meddal o ansawdd da, ac mae'n croesawu cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol.

Cydymffurfiaeth â maen prawf (c) Polisi Strategol 1: Mannau a Gofodau Cynaliadwy a Maen Prawf (b) ac (f) Polisi EA1: Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel

- 7.3.3 Mae'r mesurau lliniaru canlynol wedi cael eu cynnig, sy'n ceisio caniatáu i'r Datblygiad Arfaethedig gymhathu yn ei ardal gyfagos cyn belled ag y bo modd, gan geisio cynnwys elfennau tirwedd ac ecolegol sy'n cael eu cadw yn y dyluniad pan fo hynny'n ymarferol:
- Gwella / atgyfnerthu nifer o wrychoedd presennol ar draws y Safle i gadw patrymau ffiniau caeau am byth lle bo hynny'n bosibl, gwella cyfleoedd sgrinio gweledol, a gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd presennol.
 - Plannu gwrychoedd brodorol arfaethedig i gyflwyno cysylltiadau newydd rhwng cynefinoedd lle mae gwrychoedd yn cael eu colli oherwydd y gwaith adeiladu, lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn addas.
 - Plannu gwrychoedd brodorol arfaethedig ar hyd argloddiau gogleddol a deheuol y llwybr mynediad arfaethedig i ddigolledu am golli gwrychoedd ffin caeau, darparu sgrinio gweledol ychwanegol, a darparu gwerth amwynder.
 - Ardaloedd hadu gyda glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau lle na fyddai tir yn ymarferol bellach ar gyfer defnydd amaethyddol, er mwyn cynyddu amwynder a gwerth ecolegol, gan ganolbwyntio'n benodol ar laswellt y bwla a phorfa frwyn.
 - Plannu blociau coetir i'r de-ddwyrain ac yn union i'r gorllewin o gompownd yr is-orsaf er mwyn darparu sgrinio gweledol o eiddo cyfagos a gwella nodweddion allweddol cymeriad y dirwedd leol.
 - Plannu coed unigol i'r dwyrain o'r is-orsaf i dorri ar olygfeydd tuag at yr is-orsaf oddi wrth dderbynyddion sensitif ym Mancycapel.
 - Creu pyllau System Ddraenio Gynaliadwy i'r de o'r ffordd fynediad arfaethedig i ddarparu gwerth amwynder ac o bosibl cynyddu'r Budd Net i Fioamrywiaeth (NBB).
 - Darparu bwnd tirwedd 3m sydd i bob pwrpas yn lapio o amgylch cornel de-ddwyrainiol compownd yr is-orsaf gyda phrysgwydd hyd at 5m ychwanegol i sgrinio golygfeydd o'r eiddo i'r de-ddwyrain ac o'r A484.
 - Plannu prysgwydd yn y Datblygiad Arfaethedig drwyddi draw, gan gynnwys ar hyd a rhwng y bwnd tirwedd, er mwyn helpu i sgrinio'n weledol, darparu cysylltiadau rhwydwaith gwyrdd ychwanegol, a gwella manteision bioamrywiaeth net.
- 7.3.4 Mae LVA wedi cael ei baratoi, sy'n darparu gwerthusiad o gyflwr y dirwedd a'r newidiadau a allai ddigwydd o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig. Mae asesiadau o gymeriad y dirwedd a gyhoeddwyd yn ogystal ag arfarniad o'r dirwedd a'i nodweddion ar y Safle yn rhoi ystyriaeth briodol i gymeriad y dirwedd yn yr ardal.
- 7.3.5 Nod y tirlunio yw ymgorffori nodweddion presennol y dirwedd lle bo hynny'n bosibl; yn fwyaf arbennig gwrychoedd ffiniau caeau, ac mae wedi ceisio darparu cynigion priodol a chydymdeimladol lle bo hynny'n bosibl, gan gadw neu ffurfio cysylltedd seilwaith gwyrdd ar draws y Safle.
- 7.3.6 Daw'r LVA i'r casgliad:

"Mae Gwerthusiad Gweledol a Thirwedd Is-orsaf Llandyfaelog wedi nodi y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at amrywiaeth o effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd, yn

bennaf yn ystod y camau adeiladu a gweithredu cynnar. Mae'r effeithiau hyn yn gysylltiedig yn bennaf â chyflwyno seilwaith trydanol ar raddfa fawr i dirwedd amaethyddol, wledig yn bennaf.

Rhagwelir effeithiau niweidiol cymedrol ar dirffurf, seilwaith gwyrdd a phatrwm caeau'r Safle yn ystod y camau adeiladu a gweithredu cynnar, gyda'r effeithiau hyn yn lleihau i fach neu fach iawn erbyn Blwyddyn 15 oherwydd bod mesurau lliniaru creiddiol wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r effaith barhaol ar y dirwedd yn gysylltiedig â newid tirffurf y Safle yn barhaol er mwyn darparu ar gyfer platfform yr is-orsaf.

Mae'r effeithiau gweledol fwyaf amlwg yn gysylltiedig â derbynyddion sy'n agos at y Safle, yn enwedig yn VL1a, VL3a a VL4, lle rhagwelir effeithiau niweidiol mawr yn ystod y cam adeiladu a Blwyddyn 1. Disgwylir i'r effeithiau hyn leihau dros amser wrth i'r planhigion lliniaru aeddfedu, gydag effeithiau niweidiol cymedrol neu fach yn parhau erbyn Blwyddyn 15.

Daw'r arfarniad i'r casgliad, er bod disgwyl effeithiau niweidiol parhaol, nad yw'r rhain yn annisgwyl o ystyried maint a natur y Datblygiad Arfaethedig. Mae gan y Safle'r capasiti i ddarparu ar gyfer y seilwaith, ar yr amod bod y strategaeth seilwaith gwyrdd arfaethedig a'r mesurau lliniaru tirwedd yn cael eu rhoi ar waith yn llawn. Byddai'r dull hwn yn helpu i integreiddio'r datblygiad i'r dirwedd bresennol ac yn lleihau ei amlygrwydd gweledol, yn enwedig ar y cyd â'r seilwaith llinellau uwchben presennol."

Crynodeb o gydymffurfiaeth â maen prawf (c) Polisi Strategol 1: Mannau a Gofodau Cynaliadwy a Maen Prawf (b) ac (f) Polisi GP1

- 7.3.7 Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei ddylunio i gydbwysu'r angen am seilwaith trydanol hanfodol ag ystyriaethau esthetig ac amgylcheddol. Mae edrychiad y Datblygiad Arfaethedig yn dibynnu i ryw raddau ar y swyddogaeth gynhenid a'r gofynion diogelwch sy'n deillio o'i rôl fel is-orsaf. Dim ond yr offer sydd ei angen i weithredu'r is-orsaf arfaethedig yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiogel sydd wedi'i gynnwys yn y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi ceisio lleihau'r effeithiau gweledol ac ar y dirwedd ymhellach lle bo hynny'n bosibl drwy ddefnyddio atebion sgrinio â llystyfiant, gan gynnwys y bwnd tirwedd newydd sydd i'w blannu â phrysgwydd, drwy gadw gwrychoedd a choed presennol lle bo hynny'n bosibl, plannu blociau coetir newydd i'r de-ddwyrain ac i'r gorllewin o'r is-orsaf a phlannu gwrychoedd newydd (neu wella'r rhai presennol). Ar ben hynny, mae'r gwaith tirwedd arfaethedig yn darparu manteision ecolegol a chreu cynefinoedd. Ystyrir bod y Datblygiad Arfaethedig hwn yn cyd-fynd â maen prawf (c) Polisi Strategol 1: Mannau a Gofodau Cynaliadwy a Maen Prawf (b) ac (f) Polisi GP1 CDLIC.

7.4 Ecoleg

- 7.4.1 Mae Polisi EQ4: Bioamrywiaeth CDLIC yn nodi na fydd cynigion ar gyfer datblygu sy'n cael effaith niweidiol ar rywogaethau, cynefinoedd a nodweddion blaenoriaeth sy'n bwysig iawn i gadwraeth bioamrywiaeth a chadwraeth natur yn cael eu cefnogi oni bai fod modd lliniaru'r effeithiau'n foddhaol, bod gwelliannau net yn cael eu darparu a bod angen y prosiect, sy'n gallu dangos amgylchiadau eithriadol.

Cydymffurfiaeth â Pholisi EQ4: Bioamrywiaeth

- 7.4.2 Mae SHRA wedi cael ei baratoi er mwyn deall a fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd. Daeth y SHRA i'r casgliad "*nad oes disgwyl unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar uniondeb nodweddion cymwys y safleoedd Ewropeaidd a nodwyd yn ystod camau adeiladu neu weithredu'r Prosiect, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.*"
- 7.4.3 Mae Asesiad o'r Effaith Ecolegol (EcIA) wedi cael ei baratoi sy'n nodi'r nodweddion ecolegol pwysig yn y Safle ac yn yr ardal gyfagos a'r effeithiau posibl yn ystod y cam adeiladu ac ar ôl i'r datblygiad arfaethedig ddod yn weithredol.
- 7.4.4 Mae'r Asesiad o'r Effaith Ecolegol yn nodi y gallai fod effeithiau posibl yn ystod y cam adeiladu ar nodweddion ecolegol pwysig a/neu rywogaethau sy'n cael eu gwarchod yn gyfreithiol.



Aflonyddwch oherwydd gweithgareddau adeiladu

Yn ystod y cam adeiladu, mae'n bosibl y bydd effaith ar rywogaethau a warchodir oherwydd sŵn, golau neu ymyrraeth gan bobl. Y mesurau yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) sy'n nodi sut bydd y Datblygiad Arfaethedig yn gwarchod rhywogaethau a nodweddion ecolegol pwysig ar y Safle. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau na fydd yr effeithiau adeiladu'n sylweddol. *Colli cynefin*

7.4.5 Byddai cam adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at golledion ac enillion o ran cynefinoedd parhaol a dros dro a dirywiad cynefinoedd o ganlyniad i'r canlynol:

- clirio 2.9 ha o laswellt y bwla a phorfa frwyn a 10.4ha o laswelltir niwtral a 8.6ha o laswelltir wedi'i addasu
- colli gwrychoedd brodorol sy'n gyfuriog o rywogaethau (2.1 km) a gwrychoedd brodorol eraill (0.6 km), arall (10.4 ha) a glaswelltir wedi'i addasu (8.6 ha).

7.4.6 Byddai creu cynefinoedd o fewn ffin y Datblygiad Arfaethedig yn darparu cynefinoedd lled naturiol i gymryd lle unrhyw gynefinoedd addas a gollir yn barhaol, gan gynnwys:

- prysgwydd brodorol cyfoethog ei rywogaethau (3.3 ha)
- coetir cymysg (0.5 ha)

7.4.7 glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau (10.2 hectar)

- pyllau/basnau System Ddraenio Gynaliadwy (0.2 ha)
- perthi cyfoethog eu rywogaethau (1.6 km)
- gwella'r perthi presennol lle bo hynny'n bosibl (hyd at 3.6 km).
- bydd blychau ystlumod yn cael eu gosod ar goed yn y perthi gaiff eu gwella yn amnewid am yr ychydig nodweddion clwydo addas a gollir, ac er mwyn darparu mwy o gyfleoedd clwydo i ystlumod yn yr ardal leol
- bydd y Datblygiad Arfaethedig hefyd yn darparu mesurau sy'n benodol i rywogaethau gan gynnwys hibernacwla ymlusgiaid, blychau ystlumod, blychau pathewod a blychau adar a rhagwelir y bydd yn cynnwys dyluniad goleuo sensitif gan osgoi goleuo cynefinoedd sy'n addas ar gyfer ystlumod a phathewod cyll.

7.4.8 Bydd creu'r cynefinoedd arfaethedig yn sicrhau gwelliant cyffredinol a bydd yn lliniaru ar gyfer colli cynefinoedd a dirywiad cynefinoedd. Bydd y mesurau hyn yn cael eu cadarnhau yn y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) a bydd yn rhoi manylion am reoli a monitro'r cynefinoedd ar y Safle am o leiaf 25 mlynedd.

Darnio poblogaethau a/neu gynefinoedd

7.4.9 Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at ddarnio cynefinoedd yn rhannol o'r dwyrain i'r gorllewin oherwydd colli gwrychoedd. Fodd bynnag, byddai'r llain arfaethedig o brysgwydd i'r de o'r is-orsaf yn cryfhau'r cysylltedd o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws y Safle, gan leihau unrhyw effeithiau o ran darnio cynefinoedd. Ar ben hynny, bydd creu gwrychoedd, prysgwydd, coetir a phantiau ar draws y Safle yn darparu cysylltedd ychwanegol i'r dirwedd leol.

Marwolaethau neu anafiadau i rywogaethau

7.4.10 Mae'n bosibl y bydd rhywogaethau a warchodir yn marw neu'n cael eu hanafu wrth adeiladu'r datblygiad arfaethedig. Mae'r CEMP yn disgrifio mesurau i leihau marwolaethau rhywogaethau a warchodir, er enghraifft drwy benodi Clerc Gwaith Ecolegol a fydd yn sicrhau

cydymffurfiaid â'r CEMP a'r arferion gweithio sydd wedi'u hamlinellu yn y trwyddedau rhywogaethau a warchodir perthnasol.

Manteision Net i Fioamrywiaeth

7.4.11 Mae'r mesurau wedi'u cynllunio i ddarparu Budd Net mesuradwy i Fioamrywiaeth (NBB) yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Fframwaith DECCA. Bydd y cynigion yn:

- gwella a chreu cynefinoedd a gwella cysylltedd cynefinoedd;
- cynnal rhywogaethau gwarchodedig a nodedig; a
- darparu ar gyfer rheoli a monitro hirdymor i sicrhau enillion bioamrywiaeth.

Coedyddiaeth

7.4.12 Paratowyd Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth (AIA) i gefnogi'r cynnig cynllunio hwn. Bydd adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at golli 2.1km o wrychoedd brodorol sy'n gyforiog o rywogaethau a 0.6km o wrychoedd eraill. Ar ben hynny, mae'r AIA yn cadarnhau y bydd angen tynnu un goeden gradd B, saith coeden gradd C a phedwar grŵp o goed gradd C yn eu cyfanrwydd er mwyn hwyluso'r cynigion datblygu. Bydd hefyd angen tynnu pedwar grŵp o goed gradd C yn rhannol, saith gwrych gradd B a thri gwrych gradd C. Bydd adeiladu'r ardal llawr caled arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol ar un grŵp o goed categori C. Yn amodol ar weithredu mesurau arbenigol i ddiogelu gwreiddiau a goruchwyliaeth coedyddiaeth lem, gellir lliniaru'r effaith o bosibl a lleihau unrhyw aflonyddu ar wreiddiau coed a'r amgylchedd gwreiddio coed. Bydd angen ffensys dros dro i warchod yr holl goed sy'n cael eu cadw ar y Safle. Dylai'r ffens hon fod yn addas i'r diben ar gyfer atal gweithgarwch adeiladu a diogelu'r coed yn ddigonol.

7.4.13 Daw'r AIA i'r casgliad, yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn ac o ystyried nifer, maint a lleoliadau'r coed sydd i'w cadw, gan gynnwys y rheini sydd oddi ar y safle, y bydd yr effeithiau canolig a nodwyd yn cynrychioli newid cymedrol i brif nodweddion coedyddiaeth y Safle a'r ardal gyfagos.

7.4.14 O ganlyniad i'r uchod, nodwyd effeithiau niweidiol cymedrol ar gymeriad y dirwedd, rhwydwaith seilwaith gwyrdd, tirffurf, coed, coetir a gwrychoedd, patrwm caeau a ffiniau caeau. Erbyn blwyddyn 15 y cam gweithredu, rhagwelir y bydd yr effeithiau hyn yn lleihau ar gyfer pob derbynnydd, ar wahân i dirffurf y Safle, o ystyried y newid na ellir ei wrthdroi a ddaw yn sgil y cynigion a'r ardal gyfagos.

7.4.15 Mae Ffigur L7 y Strategaeth Lliniaru Tirwedd - Strategaeth Lliniaru Tirwedd (Stantec 2025) yn nodi manylion yr ymyriadau a'r cynigion tirweddu meddal, gan gynnwys plannu coed sbesimen a phlannu gwrychoedd a choetiroedd cymysg brodorol i liniaru yn erbyn tynnu nodweddion categori B a chategori C o werth cymedrol i isel.

Crynodeb o gydymffurfiaid â Pholisi EQ4: Bioamrywiaeth

7.4.16 Daw'r EcIA i'r casgliad y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain at golli rhywogaethau, gwrychoedd a choed blaenoriaeth uchel yn barhaol. Fodd bynnag, byddai'r mesurau digolledu a gwella arfaethedig, gan gynnwys creu cynefinoedd brodorol sy'n gyforiog o rywogaethau, coetir newydd, glaswelltir, pyllau gwlypdir newydd a basnau SuDS, gwrychoedd newydd a gwella gwrychoedd a nodweddion sy'n benodol i rywogaethau fel blychau ystludod, tiwbiau nythu pathewod, hibernacwla ymlusgiaid, a blychau adar, yn sicrhau manteision net mesuradwy i fioamrywiaeth yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Felly, nid oes disgwyl y bydd adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at effeithiau sylweddol ar Ecoleg. Ystyrir bod y Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â Pholisi EQ4: Bioamrywiaeth CDLIC.

7.5 Seilwaith Gwyrdd

- 7.5.1 Mae Polisi EQ5: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw CDLIC yn mynnu bod cynigion yn cyfrannu at natur unigryw/nodweddion lleol y Sir, ac at reoli a/neu ddatblygu rhwydweithiau ecolegol (rhwydweithiau coridorau bywyd gwylt). Mae coridorau gwyrdd hygyrch yn cefnogi eu parhad yn y dyfodol.

Cydymffurfiaeth â Pholisi EQ5: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw

- 7.5.2 Paratowyd Datganiad Seilwaith Gwyrdd (GIS) gan Stantec sy'n amlinellu'r dull o ddatblygu safle ac mae'n cyd-fynd â Phennod 6 Polisi Cynllunio Cymru sy'n mynnu bod GIS yn cael ei gyflwyno gyda phob cais cynllunio.
- 7.5.3 Mae'r GIS yn cynnwys manylion mesurau lliniaru a gwella ecolegol, gan gynnwys gwella ffiniau presennol y caeau a gwrychoedd newydd ar draws y Safle. Bydd plannu gwrychoedd newydd a gwell yn cryfhau'r cysylltedd ecolegol presennol ar draws y Safle a bydd yn darparu cynefin cysgodi a fforio gwerthfawr ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig a nodedig gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i bathew cyll, ystumod, adar, ymlusgiaid, amffibiaid a moch daear.
- 7.5.4 Bydd ychwanegu'r gwaith cloddio a blannir â phrysgwydd i'r de orllewin o'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at nifer o fanteision, gan gynnwys sgrinio gweledol a chysylltedd ecolegol ychwanegol o'r gorllewin i'r dwyrain ar y Safle. Bydd darparu bloc coetir cymysg cryf sy'n pontio i laswelltir sy'n gyfuriog o rywogaethau, a phrysgwydd i'r gorllewin o'r Datblygiad Arfaethedig, yn helpu i sgrinio golygfeydd o eiddo cyfagos a budd net i fioamrywiaeth.
- 7.5.5 Bydd y gwaith plannu newydd yn nwyrain y Safle yn torri ar y golygfeydd o'r dwyrain a bydd cynnwys y system ddraenio well ar draws y Safle yn darparu cynefinoedd gwlypdir gwerthfawr ar gyfer rhywogaethau nodedig a gwarchodedig gan gynnwys amffibiaid ac infertebratau.
- 7.5.6 Mae'r GIS yn cadarnhau y bydd y gwaith o reoli a monitro'r cynefinoedd a'r nodweddion hyn yn cael ei amlinellu mewn LEMP ac yn cael ei sicrhau am o leiaf 25 mlynedd.

Crynodeb o gydymffurfiad â Pholisi EQ5: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw

- 7.5.7 Mae'r GIS yn rhoi manylion ynghylch sut mae'r mesurau lliniaru a gwella ecolegol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig wedi ystyried natur unigryw nodweddion a chynefinoedd naturiol lleol ar draws y Safle. Fel y nodir uchod, bydd y cynigion seilwaith gwyrdd yn arwain at fanteision ehangach i'r ecosystem a byddant yn cyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau coridorau bywyd gwylt yn yr ardal. Ystyrir bod hyn yn cyd-fynd â Pholisi EQ5: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw.

7.6 Treftadaeth Ddiwylliannol

- 7.6.1 Mae Polisi Strategol SP13: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol yn nodi y dylai *"cynigion datblygu ddiogelu neu wella amgylchedd adeiledig a hanesyddol y Sir, ei hasedau diwylliannol, treflun a thirwedd a, lle bo hynny'n briodol, eu lleoliad. Bydd cynigion sy'n ymwneud â'r canlynol yn cael eu hystyried yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth genedlaethol.*

- Safleoedd a nodweddion o Bwysigrwydd Hanesyddol a Diwylliannol cydnabyddedig;*
- Adeiladau rhestredig a'u lleoliad;*
- Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliad;*
- Henebion Rhestredig a safleoedd eraill o bwysigrwydd archaeolegol cydnabyddedig.*

- 7.6.2 *Disgwylir i gynigion hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy'n atgyfnerthu cymeriad lleol ac sy'n parchu ac yn gwella'r lleoliad lleol a nodweddion diwylliannol a hanesyddol ardal y cynllun."*

Cydymffurfiaeth â Pholisi Strategol SP13: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol

- 7.6.3 Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei leoli er mwyn osgoi effeithiau ar dreftadaeth. Roedd yr Asesiad Ben Desg o'r Amgylchedd Hanesyddol (HEDBA) cychwynnol a baratowyd gan Stantec yn 2023 yn sefydlu amodau gwaelodlin a oedd yn nodi'r potensial archaeolegol ar y Safle, ac yn disgrifio asedau hanesyddol, a'u lleoliad, a allai fod yn agored i effeithiau anuniongyrchol yn sgil y Datblygiad Arfaethedig.
- 7.6.4 Nododd yr HEDBA botensial ar gyfer archaeoleg gyda gweddillion Brythonig-Rufeinig sy'n gysylltiedig â ffordd Rufeinig Via Julia Maritima, ynghyd ag olion canoloesol ac ôl-ganoloesol ar y Safle. Yn dilyn hynny, mae arolwg geoffisegol a ffosydd prawf wedi cael eu cynnal sydd wedi cadarnhau bod gan y Safle botensial archaeolegol cymharol isel ac nad yw'n debygol o gynnwys olion archaeolegol sylweddol. Daeth yr HEDBA i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar unrhyw asedau hanesyddol dynodedig (henebion rhestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth ac ati).
- 7.6.5 Daeth yr HEDBA i'r casgliad y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar arwyddocâd pedwar ased heb eu dynodi, sy'n cynnwys ffermydd ôl-ganoloesol. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw effaith ar eu lleoliad allweddol ac uniongyrchol ond byddai newidiadau i'r lleoliad ehangach gan arwain at effaith lai na 'mawr'.
- 7.6.6 Yn unol â hynny, ystyrir bod y Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â Pholisi Strategol SP13: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol CDLIC.
- 7.6.7 Mae Maen Prawf (i) Polisi GP1: Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel CDLIC yn nodi y dylai datblygiad ddiogelu a gwella tirwedd, treflun, treftadaeth hanesyddol a diwylliannol y Sir heb unrhyw effeithiau niweidiol ar leoliad nac uniondeb yr amgylchedd hanesyddol.

Cydymffurfiaeth â Maen Prawf (i) Polisi GP1: Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel

- 7.6.8 Fel y nodir uchod, mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei ddylunio'n benodol i osgoi effeithiau ar dreftadaeth a, phan fo'n bosibl, diogelu'r amgylchedd hanesyddol.
- 7.6.9 Daeth yr HEDBA i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar unrhyw asedau hanesyddol dynodedig (henebion rhestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth ac ati).
- 7.6.10 Daeth yr HEDBA i'r casgliad y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar arwyddocâd pedwar ased heb eu dynodi, sy'n cynnwys ffermydd ôl-ganoloesol. Ni fyddai unrhyw effaith ar eu lleoliad allweddol ac uniongyrchol ond byddai newidiadau i'r lleoliad ehangach gan arwain at effaith lai na 'mawr'.
- 7.6.11 O ran asedau archaeolegol, mae ymchwiliadau archaeolegol cyn penderfynu wedi dangos bod gan y Safle botensial archaeolegol isel a'i fod yn annhebygol o gynnwys olion archaeolegol arwyddocaol. Ni nodwyd unrhyw olion sy'n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau eu cadw yn y fan a'r lle. Mae hyn yn unol â Maen Prawf (i) Polisi GP1: Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel CDLIC.

7.7 Priffyrdd a Pharcio

Polisi Strategol SP9: Trafnidiaeth

- 7.7.1 Mae Polisi Strategol SP9: Trafnidiaeth yn nodi bod darpariaeth yn cael ei gwneud i gyfrannu at ddarparu system dtrafnidiaeth integredig effeithlon, effeithiol, ddiogel a chynaliadwy. Ar ben hynny, bydd llwybrau trafndiaeth, gwelliannau a chyfleusterau seilwaith cysylltiedig sy'n cyflawni amcanion a blaenoriaethau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn cael eu cefnogi. Caniateir cynigion datblygu nad ydynt yn amharu ar weithredu'n effeithlon unrhyw welliant neu gynllun a nodwyd.



Cydymffurfiaeth â Pholisi Strategol SP9: Trafnidiaeth

- 7.7.2 Mae'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol (oCTMP) yn cefnogi Polisi SP9 gan y bydd gweithgareddau adeiladu'n cael eu cynllunio i darfu cyn lleied â phosibl ar rwydweithiau ffyrdd presennol a sicrhau mynediad diogel i ddefnyddwyr ffyrdd lle bo hynny'n berthnasol, gan ystyried cynaliadwyedd lle bo hynny'n ymarferol. Mae Pennod 7 yr oCTMP yn amlinellu Cynllun Teithio Gweithwyr Adeiladu, sy'n annog dewisiadau eraill yn lle defnyddio ceir preifat lle bo hynny'n ymarferol ac yn nodi mesurau i gefnogi mynediad diogel a chydlynol i'r Safle. Er bod gan leoliad y Safle rai cyfyngiadau presennol o ran hygyrchedd drwy ddulliau di-gar, a ddangosir ym Mhennod 3 y Cynllun Teithio, mae'r cynllun yn dangos ymrwymiad i leihau'r galw am deithio a hyrwyddo defnydd effeithlon o'r rhwydwaith trafndiaeth. Mae'r oCTMP hefyd yn adlewyrchu ystyriaethau lleoli a dylunio sy'n cyd-fynd â nodau strategol Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru, gan sicrhau nad yw'r datblygiad yn amharu ar weithredu unrhyw welliannau trafndiaeth a nodwyd a'i fod yn cefnogi amcanion trafndiaeth ehangach. Ystyrir bod hyn yn cyd-fynd â Pholisi Strategol SP9 CDLIC.

Polisi TR3: Priffyrdd mewn Datblygiadau - Ystyriaethau Dylunio

- 7.7.3 Mae Polisi TR3: Priffyrdd mewn Datblygiadau yn nodi y dylai datblygiadau ddarparu mannau parcio priodol a lle bo hynny'n berthnasol. Dylid sicrhau mynediad yn unol â'r safonau sy'n adlewyrchu'r dosbarth perthnasol o gyfyngiadau a chyflymder ffyrdd gan gynnwys lleiniau gwelededd a nodweddion dylunio a mesurau tawelu sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch priffyrdd a bod rhwyddineb symud yn cael ei gynnal, a lle bo angen, ei wella, a darparu Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS) i ganiatáu gwaredu dŵr ffo wyneb oddi ar y briffordd.

Draenio'r Ffordd Fynediad

- 7.7.4 Y derbynnydd olaf ar gyfer draenio'r ffordd fynediad fydd pot gyli ar yr A484. Bydd y System Ddraenio Gynaliadwy yn cludo, yn hidlo ac yn gwanhau dŵr wyneb o'r ffordd fynediad drwy sribed hidlo, pantiau a basn gwanhau cyn cael ei ryddhau i'r A484 ar lif wedi'i reoli o 4.7 l/s. Mae gwaith modelu manwl yn ICM wedi cael ei wneud, sy'n dangos na fydd dŵr wyneb o'r ffordd fynediad yn mynd i mewn i system yr A484 tan ar ôl i'r storm fynd heibio. Felly, ni ragorir ar gapasiti carthffos dŵr wyneb yr A484 yn ystod storm.

Cydymffurfiaeth â Pholisi TR3: Priffyrdd mewn Datblygiadau - Ystyriaethau Dylunio

- 7.7.5 Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys darparu 23 o lefydd parcio a fydd yn bodloni gofynion mynediad gweithredol. Mae parcio a gwasanaethu ar gyfer y datblygiad wedi cael eu dylunio i gynnal egwyddorion mynediad diogel a chynhwysol.
- 7.7.6 Mae Pennod 6 y Datganiad Trafnidiaeth yn amlinellu'r strategaeth mynediad, gan ddangos bod dyluniad arfaethedig y mynediad yn adlewyrchu safonau priodol ar gyfer y dosbarthiad ffordd perthnasol a chyfyngiadau cyflymder, gyda lleiniau gwelededd yn cael eu darparu i ddangos bod diogelwch ar y briffordd yn cael ei gynnal.
- 7.7.7 Mae'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol (CTPM) yn rhoi manylion y mesurau rheoli traffig sydd i'w rhoi ar waith yn ystod y cam adeiladu. Cyflawnir hyn drwy fesurau fel llwybrau cerbydau diffiniedig i osgoi ardaloedd sensitif. Bydd arwyddion dros dro a mesurau rheoli traffig hefyd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cerddwyr a cherbydau'n symud yn ddiogel drwy gydol y gwaith. Mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau bod gweithgareddau adeiladu'n cael eu rheoli mewn ffordd sy'n tarfu cyn lleied â phosibl ac sy'n sicrhau diogelwch priffyrdd.
- 7.7.8 Mae'r Datganiad Trafnidiaeth yn amlinellu sut mae'r trefniadau mynediad arfaethedig yn cydymffurfio'n llawn â safonau dylunio ar gyfer y dosbarthiad ffyrdd a chyfyngiadau cyflymder, gan sicrhau bod Polisi TR3 yn cael ei gynnal. Mae lleiniau gwelededd wedi cael eu darparu yn unol â chanllawiau i gynnal diogelwch ar y priffyrdd. Er nad oes angen parcio a gwasanaethu ar y safle ar gyfer y cynnig hwn, mae'r dyluniad yn sicrhau bod pob defnyddiwr yn symud yn ddiogel ac yn effeithlon heb gael effaith niweidiol ar y rhwydwaith cyfagos, yn unol ag egwyddorion Polisi TR3. O'r herwydd, mae'r cynigion yn cyd-fynd â Pholisi TR3: Priffyrdd mewn Datblygiadau - Ystyriaethau Dylunio CDLIC.

7.8 Risg Llifogydd a Draenio Cynaliadwy

Mae Polisi EP1: Ansawdd ac Adnoddau Dŵr CDLIC yn cefnogi datblygu nad yw'n arwain at ddirywiad yn yr amgylchedd dŵr a/neu ansawdd dyfroedd a reolir.

Cydymffurfiaeth â Pholisi EP1: Ansawdd ac Adnoddau Dŵr

- 7.8.1 Mae'r strategaeth draenio cynaliadwy ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn defnyddio nodweddion gan gynnwys storio graean a phantiau gydag argaeau atal, a stribedi hidlo sy'n hidlo ac yn setlo dŵr ffo. Mae'r dull mynegai syml wedi cael ei ddefnyddio i brofi effeithiau ansawdd dŵr a phrofwyd ei fod yn ddigonol ar gyfer y defnydd tir arfaethedig ac felly ni fydd yn arwain at ddirywiad yn yr amgylchedd dŵr nac ansawdd dyfroedd a reolir. Bydd y Safle'n cael ei adeiladu ar dir maes glas presennol, felly nid yw gwella ansawdd dŵr yn ddisgwyliad priodol ar gyfer y datblygiad hwn.
- 7.8.2 Mae'r Strategaeth SuDS yn defnyddio dyluniad is-orsaf safonol y Grid Cenedlaethol, basnau SuDS, gwlypdiroedd a phantiau i reoli dŵr ffo a gynhyrchir gan y ffordd fynediad newydd ac i atal dŵr sy'n debygol o fynd i mewn i'r Safle. Mae'r strategaeth yn darparu digon o fannau gwanhau a storio hirdymor i ddarparu ar gyfer yr holl ddŵr ffo a gynhyrchir gan yr ardaloedd anhydraidd newydd yn ystod y digwyddiad glawiad yn y dyluniad (gan ystyried newid yn yr hinsawdd). Mae hyn yn golygu, ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau, bod gollyngiadau'n debygol o aros ar sero - neu'n agos at sero - a byddir yn cyfyngu ar ollyngiadau i gyfradd dŵr ffo maes glas o 1 mewn 100 mlynedd. Mae'r Strategaeth SuDS hon hefyd yn cynnwys elfennau a fydd yn helpu i lanhau dŵr ffo wyneb ac atal digwyddiadau llygredd a fydd hefyd yn darparu manteision i fioamrywiaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â Pholisi EP1: Ansawdd ac Adnoddau Dŵr CDLIC.

Polisi EP3: Draenio Cynaliadwy

- 7.8.3 Mae Polisi EP3: Draenio Cynaliadwy CDLIC yn datgan y bydd angen i ddatblygiad ddangos bod effaith draenio dŵr wyneb, gan gynnwys effeithiolrwydd ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy, wedi cael ei harchwilio'n llawn.

Cydymffurfiaeth â Pholisi EP3: Draenio Cynaliadwy

- 7.8.4 Agwedd allweddol ar esblygiad dyluniad y Prosiect oedd y cyfle i NGET weithredu strategaeth ddraenio gynhwysfawr ar gyfer y plattform unigol, gyda'r nod o leihau'r effaith ar ddraenio dŵr wyneb lleol a lleihau'r perygl o lifogydd. Mae'r cyflwyniad cynllunio hwn yn cyd-fynd â Strategaeth Draenio Cynaliadwy sydd wedi cael ei chymeradwyo mewn egwyddor gan Gorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) CSC yn ystod trafodaethau cyn ymgeisio.
- 7.8.5 Mae'r Strategaeth SuDS yn defnyddio dyluniad is-orsaf safonol y Grid Cenedlaethol, basnau SuDS, gwlypdiroedd, stribedi hidlo a phantiau i reoli dŵr ffo a gynhyrchir gan y gwaith adeiladu newydd ac i atal dŵr sy'n debygol o fynd i mewn i'r Safle. Mae'r strategaeth hon yn darparu digon o fannau gwanhau a storio hirdymor i ddarparu ar gyfer yr holl ddŵr ffo a gynhyrchir gan yr ardaloedd anhydraidd newydd yn ystod y digwyddiad glawiad yn y dyluniad (gan ystyried newid yn yr hinsawdd). Mae hyn yn golygu, ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau, bod gollyngiadau'n debygol o aros ar sero - neu'n agos at sero - a byddir yn cyfyngu ar ollyngiadau i gyfradd dŵr ffo maes glas o 1 mewn 100 mlynedd. Mae'r Strategaeth SuDS hon hefyd yn cynnwys elfennau a fydd yn helpu i lanhau dŵr ffo wyneb ac atal digwyddiadau llygredd a fydd hefyd yn darparu manteision i fioamrywiaeth ac amwynder.

7.9 Llygredd

- 7.9.1 Mae Polisi EP2: Llygredd CDLIC yn ceisio lleihau effeithiau posibl llygredd, gan gynnwys ar ansawdd aer, ansawdd dŵr, golau a sŵn a halogiad. Nodir a thrafodir pob un o elfennau'r polisi yn eu tro isod.

Cydymffurfiaeth â Pholisi EP2: Llygredd - Ansawdd Aer

- 7.9.2 Mae Stantec wedi paratoi Asesiad Ansawdd Aer sy'n disgrifio ansawdd yr aer presennol yn ardal yr astudiaeth ac sy'n asesu effaith adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig ar ansawdd yr aer yn ardal yr astudiaeth.
- 7.9.3 Mae CSC wedi ymchwilio i ansawdd aer o fewn ei ffin weinyddol fel rhan o'i gyfrifoldebau o dan y drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM). Mae tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) wedi cael eu datgan oherwydd eu bod yn rhagori ar yr amcan blynyddol cymedrig ar gyfer nitrogen deuocsid (NO₂). Mae'r Safle oddeutu 6 km o'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer agosaf, sy'n cwmmpasu ardal yng nghanol Caerfyrddin.

Effeithiau Adeiladu ar Ansawdd Aer

- 7.9.4 Yn ystod y gwaith dymchwel ac adeiladu, mae'n bosibl y bydd llwch o weithgareddau ar y safle a thracio oddi ar y safle gan gerbydau adeiladu yn effeithio ar dderbynyddion dynol sensitif yn ardal yr astudiaeth. Y prif effeithiau posibl yw colli amwynder (o ganlyniad i llwch yn baeddu) a dirywiad mewn iechyd pobl (o ganlyniad i grynodiadau PM₁₀). Yn ystod y cam adeiladu, bydd y cynnydd yn nifer y symudiadau cerbydau nwyddau trwm ar y rhwydwaith ffyrdd yn is na'r trothwy o 100 symudiad y dydd y tu allan i Ardal Rheoli Ansawdd Aer sy'n golygu nad yw asesiad manwl yn angenrheidiol yn unol â chanllawiau EPUK ac IAQM (EPUK / IAQM, 2017). Mae'r crynodiadau gwaelodlin a ragwelir yn yr ardal hefyd yn is o lawer na'r Amcanion Ansawdd Aer Cenedlaethol ac felly ni fydd y lefel hon o symudiadau HDV ychwanegol yn cael effaith arwyddocaol ar ansawdd aer lleol.
- 7.9.5 Er bod effeithiau allyriadau traffig ffyrdd ar ansawdd aer lleol yn ystod y cam adeiladu wedi cael eu hasesu fel rhai 'nad ydynt yn arwyddocaol' ac nad oes angen rhagor o fesurau lliniaru, bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu yn cael ei ddatblygu ar gyfer adeiladu'r is-orsaf. Bydd yn nodi mesurau i liniaru effaith symudiadau cerbydau adeiladu ar y rhwydwaith priffyrdd a derbynyddion sensitif, gan gynnwys eiddo preswyl.

Effeithiau Gweithredu ar Ansawdd Aer

- 7.9.6 Yn ystod y cam gweithredu, nid oes disgwyl i'r Datblygiad Arfaethedig gynhyrchu traffig sylweddol gan mai dim ond ar gyfer archwilio a chynnal a chadw y bydd angen mynediad. O'r herwydd, mae'r traffig sy'n cael ei gynhyrchu gan y Datblygiad Arfaethedig yn disgyn o dan feini prawf sgrinio EPUK / IAQM ac, felly, mae modd sgrinio effeithiau traffig gweithredol sy'n cael ei gynhyrchu gan y Datblygiad Arfaethedig ar dderbynyddion sensitif presennol yn ardal yr astudiaeth a'u hystyried fel rhai 'nad ydynt yn arwyddocaol' ac felly nid oes angen unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol.

Cydymffurfiaeth â Pholisi EP2: Llygredd - Ansawdd Dŵr

- 7.9.7 Fel y nodir yn yr adran '*Risg Lifogydd a Draenio Cynaliadwy*', mae'r Strategaeth Draenio Cynaliadwy yn ymgorffori elfennau a fydd yn helpu i lanhau dŵr ffo wyneb ac atal digwyddiadau llygredd a fydd hefyd yn darparu manteision i fioamrywiaeth ac amwynder.
- 7.9.8 Mae platform yr is-orsaf wedi cael ei ddylunio fel bod ei ôl troed mor fach â phosibl. Bydd y platform yn ymgorffori mesurau fel arwynebau gwellt wedi'i atgyfnerthu/cerrig mâl er mwyn lleihau'r angen am arwynebau caled/athraidd a ffensys diogelwch rhwyll wedi'u weldio i leihau'r effaith weledol. Bydd y pantiau a'r basn SuDS arfaethedig yn darparu amwynder gweledol gan ddefnyddio deunyddiau adeiladu naturiol a bydd heterogenedd geomorffolegol a ymgorfforir yn ffurf y nodweddion hyn yn darparu cynefin ar gyfer fflora a ffawna lleol, yn ddyfrol ac yn ddaearol.

Cydymffurfiaeth â Pholisi EP2: Llygredd - Golau

Goleuadau yn ystod y gwaith adeiladu:

- 7.9.9 Bydd y Safle adeiladu wedi'i oleuo'n ddigonol i sicrhau amodau gwaith diogel. Bydd yr holl oleuadau'n cael eu lleoli a'u haddasu fel nad ydynt yn achosi niwsans i eiddo cyfagos. Bydd goleuadau yn ystod y nos, y tu allan i oriau gwaith, yn cael eu lleihau i'r lefel isaf sy'n gymesur â'r angen i gynnal gofynion diogelwch y safle a lleihau'r effaith amgylcheddol a llygredd golau.

Goleuadau yn ystod gweithredu:

- 7.9.10 Bydd ffens ddiogelwch wedi'i thrydaneiddio (3.4m o uchder) yn amgylchynu'r compownd. Bydd goleuadau diogelwch isgoch goddefol a chamêrau diogelwch teledu cylch cyfyng yn amgylchynu'r offer ac yn creu compownd diogel. Bydd yr offer yn cael ei oleuo at ddibenion cynnal a chadw, a bydd unrhyw olau yn cael ei baratoi yn unol â'r Safonau Dylunio ar gyfer Goleuadau Allanol presennol.

Cydymffurfiaeth â Pholisi EP2: Llygredd - Sŵn

Effeithiau Adeiladu

- 7.9.11 Mae Stantec wedi paratoi Asesiad Sŵn Adeiladu sy'n ymdrin â sŵn yn ystod cam adeiladu'r datblygiad yn unig. Mae arolwg sŵn amgylcheddol wedi cael ei gynnal, i sefydlu'r lefelau sŵn amgylcheddol presennol sy'n cynrychioli derbynyddion cyfagos sy'n sensitif i sŵn. Defnyddiwyd canlyniadau'r arolwg sŵn amgylcheddol fel sail i'r asesiad. Ymgynghorwyd ag Adran Iechyd yr Amgylchedd (EHD) yn CSC i gytuno ar leoliad a hyd a lled yr arolwg sŵn sylfaenol. Defnyddiwyd canlyniadau'r arolwg sŵn amgylcheddol fel sail i'r asesiad. Mae adeiladau sy'n sensitif i sŵn wedi cael eu nodi'n agos at y gwaith, ac mae lefelau sŵn tebygol sy'n deillio o'r gwaith adeiladu wedi cael eu cyfrifo. Daeth yr Asesiad i'r casgliad bod canlyniadau'r cyfrifiadau'n dangos bod lefelau sŵn yn debygol o fod yn is na'r lefel trothwy ar gyfer pob derbynydd.
- 7.9.12 Mae'r mesurau lliniaru sŵn adeiladu a gynigir fel a ganlyn:
- Sicrhau y defnyddir dulliau gweithio tawel, y peiriannau mwyaf addas ac oriau gweithio rhesymol ar gyfer gweithrediadau swnllyd, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol;
 - Lleoli offer a chyfarpar swnllyd mor bell ag sy'n rhesymol bosibl oddi wrth dai, a lle bo hynny'n ymarferol, llwytho a dadlwytho yn yr ardaloedd hyn;
 - Offer sgrinio i leihau sŵn na ellir ei leihau drwy gynyddu'r pellter rhwng y ffynhonnell a'r derbynydd (h.y. drwy osod offer a chyfarpar swnllyd y tu ôl i adeiladau mawr ar y safle);
 - Diffodd unrhyw beiriannau sy'n gweithio o bryd i'w gilydd neu eu tawelu i'r lefel isaf bosibl;
 - Cyfeiriannu offer y gwyddys ei fod yn allyrru sŵn yn gryf i un cyfeiriad fel bod y sŵn yn cael ei gyfeirio i ffwrdd o dai, lle bo hynny'n bosibl;
 - Cau caeadau acwstig ar injans pan fyddant yn cael eu defnyddio neu'n troi'n eu hunfan;
 - Gostwng deunyddiau'n araf, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, a pheidio â'u gollwng;
 - Defnyddio rhwystrau acwstig dros dro, lle bo hynny'n briodol, a mesurau cyfyngu ar sŵn eraill, fel sgriniau, gorchuddion a byrddau acwstig ar ffin y safle adeiladu er mwyn lleihau'r sŵn a lleihau lefelau sŵn yn y derbynyddion y gallai hyn effeithio arnynt.
- 7.9.13 Felly, ar sail canlyniadau'r asesiadau a gynhaliwyd, ystyrir bod y Safle'n addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig o ran sŵn adeiladu.

Effeithiau'r Cam Gweithredu

- 7.9.14 Mae asesiad o'r effeithiau sŵn gweithredu tebygol sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei gynnal ac adroddir ar hyn yn yr Asesiad o'r Effaith Sŵn a gyflwynir gyda'r cais cynllunio hwn. Mae'r Asesiad o'r Effaith Sŵn Gweithredu yn nodi na ragwelir unrhyw effeithiau niweidiol mewn unrhyw dderbynyddion sy'n sensitif i sŵn.

Cydymffurfiaeth â Pholisi EP2: Llygredd - Halogiad

- 7.9.15 Tir amaethyddol yw'r Safle a'r tir cyfagos yn bennaf ac, o'r herwydd, ystyrir bod gan y Safle botensial isel iawn o ran halogiad arwyddocaol. Mae'r Asesiad Risg Rhagarweiniol Haen 1, gan ddefnyddio methodoleg Stantec, yn dod i'r casgliad bod y risg waethaf bosibl a amcangyfrifir mewn perthynas â chysylltiadau halogi posibl yn cael ei dosbarthu fel risg 'Isel iawn'.
- 7.9.16 Mae'r ddaearog gyhoeddedig yn dangos bod Grŵp Aberdaugleddau o dan y Safle, a hynny ar draws y rhan fwyaf o'r Safle, gyda Thywodfaen Ffuriant Senni yn brigo i'r de o'r Safle. Nodir diffyg dyddodion arwynebol ar draws y rhan fwyaf o'r Safle, ond nodir bod brigiad bach o Dil Defensaidd yn bresennol ar ymyl orllewinol bellaf y Safle.
- 7.9.17 Yn gyffredinol, ystyrir bod y cyfyngiadau geodechnegol o ran datblygu'r Safle sy'n gysylltiedig ag amodau'r tir, peryglon daearogol posibl a'r defnydd tir hanesyddol a phresennol yn 'Isel' i 'Isel iawn'.

Crynodeb o gydymffurfiaeth â Pholisi EP2: Llygredd

- 7.9.18 Bydd y Datblygiad arfaethedig yn lleihau effeithiau posibl llygredd ar ansawdd aer, ansawdd dŵr, golau a sŵn a halogiad yn ystod y cam adeiladu a gweithredu, gyda mesurau lliniaru lle bo angen. Ystyrir bod y Datblygiad Arfaethedig yn cyd-fynd â Pholisi EP2: Llygredd CDLIC.

7.10 Materion Perthnasol Eraill

Diogelwch Tân

- 7.10.1 Bydd Adroddiad Diogelwch Tân yn cael ei baratoi yn ystod y cam dylunio manwl a gellid ei sicrhau drwy ddefnyddio amod wedi'i eirio'n addas. Bydd yr Adroddiad Diogelwch Tân yn dangos y bydd y datblygiad arfaethedig yn bodloni holl ofynion swyddogaethol Rhan B (Diogelwch Tân) Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Diogelwch

- 7.10.2 Bydd ffens ddiogelwch wedi'i thrydaneiddio (3.4m o uchder) yn amgylchynu'r compownd. Bydd goleuadau diogelwch isgoch goddefol a chamerau diogelwch teledu cylch cyfyng yn amgylchynu'r offer ac yn creu compownd diogel.
- 7.10.3 Mae National Grid yn cynnal asesiadau risg cynhwysfawr ac yn cydweithio ag asiantaethau amrywiol y llywodraeth i sicrhau bod pob is-orsaf yn cael ei diogelu a'i gwarchod yn unigol. Mae'r holl gyfleusterau'n bodloni safonau'r Llywodraeth a'r diwydiant, gyda thimau'n profi ac yn cryfhau cadernid y system yn rheolaidd i sicrhau bod trydan yn cael ei drosglwyddo'n ddiogel ac yn effeithlon.

Meysydd Trydanol a Magnetig

- 7.10.4 Mae Meysydd Trydanol a Magnetig (EMFs) yn cael eu cynhyrchu gan gerrynt sy'n llifo drwy ddargludydd. Gall cryfder y maes magnetig o is-orsaf gynyddu neu leihau yn dibynnu ar y galw am drydan yn yr ardal honno. Nid yw is-orsafoedd yn cynhyrchu maes trydan allanol sylweddol ond maent yn darparu maes magnetig. Fel y nodir ar wefan y National Grid², "Mae

² <https://www.nationalgrid.com/stories/energy-explained/is-living-next-to-substation-safe> [cyrchwyd 12 Hydref 2025].

lefelau meysydd Magnetig ar ffin is-orsaf fel arfer ar lefel 1 neu μT , ond mae hyn yn gostwng yn gyflym iawn wrth i chi symud i ffwrdd.” Tua 1-2 metr o'r is-orsaf, mae'r maes magnetig fel arfer yn is na'r maes a geir yn y cartref cyffredin.

- 7.10.5 Mae'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP) wedi gosod canllawiau'r DU ar gyfer meysydd magnetig ac mae'r canllawiau hyn wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Llywodraeth. 'Lefel cyfeirnod' ICNIRP ar gyfer amlygiad cyhoeddus yw $100 \mu T$ ar gyfer meysydd magnetig amledd pŵer (50 Hz).
- 7.10.6 Mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei ddylunio i gydymffurfio â chanllawiau'r ICNIRP. Mae Adroddiad EMF manwl yn cyd-fynd â'r cyflwyniad cynllunio hwn.

8 Crynodeb a Chasgliadau

8.1 Crynodeb

- 8.1.1 Cyflwynir y cais hwn i'r Cyngor ar gyfer is-orsaf 400kV (gan gynnwys platfform yr is-orsaf, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig). Mae'r Prosiect yn cynnwys y prif elfennau canlynol:
- Adeiladu platfform unigol (260 metr wrth 640 metr) lle bydd Is-orsaf wedi'i Hinswleiddio ag Aer (AIS) yn cael ei lleoli.
 - Mynediad i'r A484, gyda ffordd fynediad weithredol i gysylltu'r platfform â'r A484.
- 8.1.2 Gwaith addasu i'r Llinell Uwchben 400kV bresennol i gysylltu'r is-orsaf â'r llinellau uwchben presennol, gan gynnwys gosod dau dŵr newydd ac amnewid un tŵr tua 18m a 62.
- 8.1.3 Systemau draenio cysylltiedig a thirlunio caled a meddal.

8.2 Casgliadau

- 8.2.1 Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cefnogi amcanion lleol a chenedlaethol ar gyfer grid trydan cadarn sy'n galluogi ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan ddiwallu'r galw am ynni nawr ac yn y dyfodol ar yr un pryd â sicrhau cyflenwad dibynadwy ar gyfer gweithrediadau diwydiannol.
- 8.2.2 Bydd yr is-orsaf arfaethedig yn chwarae rhan hollbwysig yn y rhwydwaith trydan drwy reoleiddio foltedd, galluogi dosbarthu pŵer yn ddiogel, ac ynysu namau neu ardaloedd cynnal a chadw i ddiogelu'r grid. Mae'r is-orsaf newydd yn hanfodol i ddiwallu anghenion ynni rhanbarthol cynyddol, gwella cadernid y rhwydwaith, a chefnogi twf preswyl a masnachol yn y dyfodol.
- 8.2.3 Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn gryf â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Cymru'r Dyfodol, a pholisïau perthnasol Cynllun Lleol y Cyngor. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys datblygu cynaliadwy; mae ei bwrpas yn cynnwys cryfhau a galluogi uwchraddio seilwaith ynni y mae mawr ei angen, gan gydbwyso ystyriaethau amgylcheddol ar yr un pryd. Mae'r PS hwn yn dangos bod y datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor. Ar ben hynny, cadarnhaodd CSC nad oedd polisi i atal y Datblygiad Arfaethedig yn y cyngor cyn ymgeisio a gafwyd.
- 8.2.4 Mae'r dogfennau ategol yn rhoi cefndir y broses o ddewis safle ac asesiad o effeithiau manwl y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r PS wedi arfarnu'r manylion hyn o dan y polisïau cynllunio perthnasol ac ystyriaethau perthnasol. Mae'n dod i'r casgliad bod y Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â'r polisïau manwl sy'n ymwneud â defnydd tir, yr amgylchedd hanesyddol, tirwedd, ecoleg, traffig a thrafnidiaeth a'r amgylchedd.
- 8.2.5 Bydd y cynnig hefyd yn darparu gwelliannau seilwaith gwyrdd a budd net i fioamrywiaeth yn unol â PCC.
- 8.2.6 Mae'r datganiad hwn wedi asesu a chadarnhau cydymffurfiaid â'r Cynllun Datblygu mabwysiedig yn ei gyfanrwydd, fel sy'n ofynnol o dan A38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
- 8.2.7 Ar y sail hon, ystyrir y dylai'r cais hwn gael ei gymeradwyo'n ddi-oed, a gofynnir yn barchus am hynny.